


# Adroddiad Blynyddol

2023 - 2024

ag|c  
hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Healthcare Inspectorate Wales



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth annibynnol y GIG a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.



Ein  
diben

Sicrhau bod  
gwasanaethau gofal  
iechyd yn cael eu  
darparu mewn ffordd  
sy'n mwyafu iechyd  
a llesiant pobl.

Ein  
nod  
ywd

Bod yn llais  
dibynadwy sy'n  
ysgogi gwelliant ym  
maes gofal iechyd ac  
yn dylanwadu arno.

Ein  
gwerthoedd

Mae pobl wrth  
wraidd yr hyn  
a wnawn.

## Rydym wedi pennu pedwar amcan strategol i gyflawni ein nod o ysgogi gwelliant ym maes gofal iechyd a dylanwadu arno.



Byddwn  
yn:

Canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt.

Byddwn  
yn:

Addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifionsy'n dod i'r amlwg.

Byddwn  
yn:

Cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd.

Byddwn  
yn:

Cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Rydym yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru



Rydym yn cynnal rhaglen o adolygiadau er mwyn edrych yn fanwl ar faterion cenedlaethol neu faterion mwy lleol

Rydym yn monitro pryderon ac atgyfeiriadau diogelu



Rydym yn cymryd camau rheoleiddio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd annibynnol cofrestredig yn bodloni gofynion deddfwriaethol



Rydym yn argymhell gwelliannau, di-oed a thymor hwy, i wasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol



Mae gennym dîm o 87 o aelodau o staff, sy'n gweithio ledled Cymru i gefnogi ein swyddogaethau a gwneud ein gwaith sicrwydd



Mae gennym dîm o adolygwyr cymheiriaid arbenigol sy'n cael eu recriwtio'n barhaus gennym i ddarparu gwybodaeth arbenigol, gyfredol am wasanaethau a safonau ansawdd



Mae gennym arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn



Mae gennym banel o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad i gasglu barn cleifion yn ystod arolygiad


## Cynnwys

---

01	Rhagair	1
02	2023-2024 mewn Niferoedd	5
03	Ymgysylltu â Chydweithio	8
04	Adolygiadau	14
05	Gwasanaethau'r GIG	24
06	Gofal Iechyd Annibynnol	39
07	Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau	50
08	Ein Hadnoddau	63
09	Cyswllt	66

01.

# Rhagair



## Rhagair



**Alun Jones**  
**Prif Weithredwr**

Bob blwyddyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi canfyddiadau allweddol ein gwaith o reoleiddio, arolygu ac adolygu gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Ein nod yw ysgogi gwelliannau drwy ddeall y risgiau a'r heriau sy'n atal gwasanaethau rhag gweithredu'n effeithiol ac yn effeithio ar ansawdd y gofal a ddarperir. Rydym wedi parhau i weithio mewn ffordd mewn modd annibynnol, cytbwys ac yn seiliedig ar risg. Wrth gynnal ein gweithgarwch sicrwydd, rydym wedi tynnu sylw at feysydd i'w gwella ac arferion da ac wedi rhannu canfyddiadau a themâu allweddol i gefnogi a llywio'r broses o wella gwasanaethau.

Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn, ac mae gwrando ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ac yn gweithio ynddynt ledled Cymru yn parhau i fod yn un o feysydd allweddol ein gwaith. Drwy gael adborth ar wasanaethau,

gallwn gasglu gwybodaeth ystyrllon er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'r hyn sy'n bwysig i bobl. Er mwyn atgyfnerthu ein hymrwymiad yn y maes hwn, mae'n bleser gennyf nodi ein bod, ar y cyd ag [Arolygiaeth Gofal Cymru \(AGC\)](#), wedi cyhoeddi [datganiad strategol o fwriad mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant](#) yn gynharach eleni. Mae'r datganiad yn rhan o'n hymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a fydd yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori ym mhob rhan o'n gwaith, gan ein helpu i ddeall yr heriau y mae cymunedau yn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal.

Rwyf hefyd yn falch eithriadol o waith ein [Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid](#) newydd, sy'n parhau i ddarparu gwybodaeth, syniadau a chyfeiriad gwerthfawr ar gyfer ein gwaith. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr



o amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig ac yn eu cynrychioli. Mae'r grŵp wedi dylanwadu ar y ffyrdd rydym yn eu defnyddio i geisio adborth gan gleifion ac mae wedi ein herio i feddwl yn fwy beirniadol am y ffordd rydym yn gweithio i ddeall ac ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach.

Mewn gwlad fach fel Cymru, mae cydweithio â sefydliadau bach yn hanfodol, ac yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi arwain dwy [Uwchgynhadledd Gofal Iechyd](#) gyda chyrrff arolygu, rheoleiddio, sicrwydd ac archwilio gofal iechyd. Tynnodd yr Uwchgynadledau sylw at yr heriau parhaus a wynebwr yn y system gofal iechyd yng Nghymru, sy'n cynnwys materion o ran y gweithlu, y gallu i gael gafael ar wasanaethau ac amseroldeb gofal.

Yn gyffredinol, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a gawsant a'u bod yn gwerthfawrogi gwaith ac ymrwymiad y staff. At hynny, mae ein gwaith arolygu ac adolygu wedi dangos bod y rhan fwyaf o gleifion yn cael gofal iechyd o safon uchel. Rydym hefyd wedi gweld bod arloesi yn y GIG, gan gynnwys darparu amrywiaeth o opsiynau i gleifion y mae

angen gofal brys a gofal y tu allan i oriau arnynt, wedi helpu'r system i ymateb i alw uchel iawn. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'n harolygiadau mewn ysbytai fod adegau pan fo llawer mwy o alw na chapasiti. Gall hyn arwain at oedi cyn darparu gofal brys ac mae cleifion yng Nghymru yn aml yn wynebu oedi hir wrth aros am ofal a gynlluniwyd.

Rydym yn cydnabod bod byrddau iechyd yng Nghymru yn parhau i wynebu heriau wrth ddarparu gofal iechyd. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig nad yw arweinwyr yn ein gwasanaethau iechyd, wrth geisio mynd i'r afael â'u heriau strategol ac ariannol, yn anghofio am yr angen i ddarparu gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae ein gwaith wedi darparu gwybodaeth am effaith oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty yng Nghymru. Mae'r heriau o ran oedi cyn rhyddhau cleifion yn eang, a gall arosiadau diangen o hir yn yr ysbyty o ganlyniad i'r oedi hwn beri risg i gleifion. Mae ein gwaith yn ysbytai'r GIG wedi tynnu sylw at lif cleifion gwael, a welir yn fynych, ynghyd â phwysau dyddiol dwys mewn perthynas â derbyn cleifion a rheoli gwelyau. Rydym wedi nodi Adrannau Achosion Brys gorlawn ledled Cymru, cleifion yn aros am gyfnodau hir cyn cael eu brysbennu, a chleifion yn aros am gyfnodau hir

cyn cael eu trin neu eu derbyn i'r gwelyau mwyaf priodol. Mae'n her gymhleth, yn enwedig mewn perthynas â'r rhyngweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ond mae ein gwaith wedi nodi meysydd lle y gall lleoliadau wneud mwy i fynd i'r afael â'r her barhaus hon.

Drwy ein gwaith arolygu a sicrwydd mewn practisau meddygon teulu, roedd yn amlwg bod gwasanaethau yn parhau i wynebu pwysau sylweddol ers y pandemig, o ganlyniad i bractisau'n cau, prinder staff a rhestrau aros hir am driniaeth mewn ysbytai.

Mae ein hadolygiadau cenedlaethol wedi ein helpu i werthuso sut mae gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru yn cael eu darparu. Adolygiadau ar raddfa fawr yw ein hadolygiadau yn aml, sy'n cynnwys cydweithio â sefydliadau eraill i ddod ynghyd i gyfuno ein profiadau a'n gwybodaeth. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar gymhlethdodau yn ymwneud â rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys ymchwilio i drefniadau amddiffyn plant, a sut mae penderfyniadau meddygol anodd yn cael eu gwneud yng Nghymru, er enghraifft penderfyniadau ynghylch peidio â dechrau adfywio cardiopwlmonaidd.



Ein rôl yn y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yw cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau. Mae'r sector gofal iechyd annibynnol yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o wasanaethau, o ysbytai aciwt ac ysbytai iechyd meddwl, i glinigau annibynnol a gwasanaethau laser. Gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yw llawer o'r practisau deintyddol yng Nghymru hefyd, sy'n darparu gofal iechyd deintyddol preifat, neu gymysgedd o ddeintyddiaeth breifat a deintyddiaeth y GIG. Mae ein gwaith mewn perthynas â phractisau deintyddol wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud â chapasiti a galw a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar allu cleifion i gael gofal amserol.

Rydym yn rhoi pwys mawr ar y wybodaeth y mae pryderon yn ei rhoi ac yn ei defnyddio i ysgogi a llywio ein gwaith arolygu a sicrwydd. Y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'n pryderon yn ystod y cyfnod hwn oedd y gallu i gael apwyntiadau gyda meddyg teulu, deintydd neu wasanaeth iechyd meddwl, gan gynyddu'r galw ar adrannau achosion brys, a lefelau staffio isel.

Pan fyddwn yn nodi methiannau neu ofal annigonol mewn gwasanaethau, byddwn yn cymryd camau gweithredu. Oherwydd difrifoldeb a nifer y materion

a nodwyd drwy rai o'n harolygiadau gofal iechyd annibynnol, rydym wedi dynodi lleoliadau yn 'Wasanaethau sy'n Peri Pryder' yn unol â'n prosesau [Uwchgyfeirio a Gorfodi](#). Rydym wedi atal cofrestriadau lle rydym wedi nodi methiannau difrifol ac wedi ymchwilio iddynt a chychwyn nifer o achosion troseddol i sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu.

Mae ein hamcanion yn uchelgeisiol a thrwyddynt, ei nod yw gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru drwy gyfrannu at welliannau i ofal iechyd. Yn yr adroddiad hwn, byddwch yn gweld enghreifftiau o'r ffordd rydym wedi defnyddio ein gwaith i fynd ar drywydd y nod hwn.

Rwy'n falch o'n sefydliad a'n timau, wrth i ni barhau i weithio tuag at gyflawni ein nod o fod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant ym maes gofal iechyd ac yn dylanwadu arno.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar yr adroddiad hwn, ein gwaith, neu'ch profiad o wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, mae croeso i chi gysylltu â ni.

*Alun Jones*




01	02	03	04	05	06	07	08	09
Rhagair	<b>2023-2024 mewn Niferoedd</b>	Ymgysylltu â Chydweithio	Adolygiadau	Gwasanaethau'r GIG	Gofal Iechyd Annibynnol	Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau	Ein Hadnoddau	Cyswllt

02.

# 2023-2024 mewn Niferoedd



## 2023-2024 mewn Niferoedd



2023

## Ebrill

- Cynhaliwyd 10 arolygiad.

## Mai

- Cynhaliwyd 13 o arolygiadau.
- [Bwletin Arsylwi - Mai 2023](#).
- [Adolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant \(JICPA\) yn Sir Ddinbych](#).
- [Cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredol](#).

## Mehefin

- Cynhaliwyd 12 o arolygiadau.
- [Cyhoeddwyd canfyddiadau interim adolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru](#).
- Diddymodd AGIC statws Gwasanaethau Fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru fel gwasanaeth sydd angen ei wella'n sylweddol.

## Gorffennaf

- Cynhaliwyd 21 o arolygiadau.
- [Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol ar Fonitro Iechyd Meddwl ar gyfer 2021-2022](#).

## Rhagfyr

- Cynhaliwyd 4 o arolygiadau.
- [Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol](#).

## Tachwedd

- Cynhaliwyd 17 o arolygiadau.

## Hydref

- Cynhaliwyd 18 o arolygiadau.
- [Cynhaliodd AGIC 35ain Gynhadledd Bartneriaeth Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwylio mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(EPSO\) ym mhrifddinas Cymru](#).

## Medi

- Cynhaliwyd 20 o arolygiadau.
- [Cyhoeddwyd ein Hadolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion - taith drwy'r llwybr strôc](#).
- [Cyhoeddwyd ein hadolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant \(JICPA\) ym Mhen-y-bont ar Ogwr](#).
- [Cyhoeddwyd ein Hadolygiad Cyflym o Weithdrefnau Amddiffyn Plant yng Nghymru](#).

## Awst

- Cynhaliwyd 15 o arolygiadau.
- [Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Datganiad o Fwriad Strategol](#).

## Ionawr

- Cynhaliwyd 14 o arolygiadau.
- [Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol ar Fonitro Iechyd Meddwl ar gyfer 2022-2023](#).

## Chwefror

- Cynhaliwyd 14 o arolygiadau.
- [Cyhoeddwyd ein hadolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant \(JICPA\) ym Mhowys](#).
- [Cyhoeddwyd Adolygiad ar y Cyd: Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid \(DoLS\)](#).

## Mawrth

- Cynhaliwyd 14 o arolygiadau.
- [Cyhoeddwyd Bwletin Arsylwi - Mawrth 2024](#).

2024

03.

# Ymgysylltu â Chydweithio



## Ymgysylltu

Drwy wrando ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ac yn gweithio ynddynt, gallwn feithrin dealltwriaeth well o'r hyn sy'n bwysig i bobl.

Yn ystod ein gwaith sicrwydd, rydym yn gofyn i gleifion ddweud wrthym am y gofal y maent yn ei gael drwy gwblhau arolwg byr. Lle y bo'n bosibl, rydym yn ceisio siarad â chleifion wyneb yn wyneb yn ystod ymweliadau ar y safle, er mwyn i ni allu casglu eu sylwadau yn uniongyrchol. Rydym hefyd yn defnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, ochr yn ochr â chylchlythyr penodol, i godi ymwybyddiaeth a chasglu rhagor o wybodaeth.

Yn ystod ein gwaith arolygu a sicrwydd, rhoddodd 8,243 o bobl eu barn i ni am y gofal roeddent wedi'i gael, neu'r gwasanaethau roeddent yn gweithio ynddynt. O blith yr ymatebion hynny, roedd 7,695 yn ymwneud â'n gweithgarwch arolygu a 548 yn ymwneud â'n gwaith adolygu.

- Clywsom gan y canlynol:
- 5,856 o gleifion
  - 2,319 o staff
  - 68 o ofalwyr/perthnasau

Drwy gasglu adborth, gallwn feithrin dealltwriaeth well o wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, dylanwadu arnynt ac ysgogi gwelliannau ynddynt.



**Dros 7k o danysgrifwyr i'n cylchlythyr**



**255k o ymweliadau â'n gwefan**



**3.7k o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol - cynnydd o 19.4%**



**597 o ddilynwyr newydd ar y cyfryngau cymdeithasol**



**Ein cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'i weld/gwyllo 100k o weithiau - cynnydd o 12.6% ers y llynedd**



**Ein fideos ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'u gwyllo 5k o weithiau**



**Cyrhaeddiad drwy LinkedIn - 10k - cynnydd o 46% ers y llynedd**

Mae ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn dal i fod yn flaenoriaeth, a'n nod yw sicrhau y caiff canlyniadau ymgysylltu eu hadlewyrchu yn ein gwaith. Mae ymgysylltu yn ein helpu i gryfhau ein gwaith partneriaeth, gan sicrhau ei fod yn gwbl gynhwysol a chynrychioliadol. Ein nod yw sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'r gwaith rydym yn ei wneud, ac ystyried sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gael gafael ar ofal iechyd o ansawdd.

Mae ymgysylltu yn ehangach ac yn ddyfnach nag ymgynghori traddodiadol. Mae'n ymwneud â'r ffordd rydym yn cyfathrebu â phobl a rhanddeiliaid, yn eu cynnwys, yn gwrandao arnynt, yn ymateb iddynt, ac yn eu deall. Mae'n ymwneud â'r ffordd rydym yn helpu pobl ac yn gwneud gwaith gwybodus drwy ddatblygu cydberthnasau er mwyn meithrin dealltwriaeth; gan annog cyfranogwyr gweithredol i drafod y pethau sydd o bwys iddynt a dylanwadu arnynt.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu'n eang, ac rydym yn annog pobl i glicio ar ddolenni i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n rôl. Mae ein dilynwyr ar y sianeli hyn wedi cynyddu a dengys dadansoddeg fod ein postiau ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd mwy o bobl bob mis. Ymwelwyd â'n gwefan gyhoeddus 255,000 o weithiau yn ystod y cyfnod hwn, ac mae ein cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu nifer y bobl sy'n clicio ar ddolenni i dudalennau gwybodaeth allweddol. Rydym yn sicrhau bod ein cynnwys yn gwbl hygyrch drwy gynnal gwiriadau rheolaidd, ochr yn ochr â datblygu a chyflwyno Canllaw ar Hygyrchedd.




Rydym wedi parhau i gyhoeddi ein [bwletinau arsylwi](#) chwarterol, a gyhoeddir yn electronig i fwy na 7000 o danysgrifwyr ar ein rhestr bostio. Mae'r bwletin yn crynhoi ein gwaith dros y chwarter ac yn cynnwys adran [Dysgu a Dealltwriaeth](#) lle rydym yn rhannu themâu a gwersi i'w dysgu sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith. Rydym hefyd wedi cyflwyno adran Dysgu a Dealltwriaeth ar ein gwefan, lle rydym yn rhannu cyfres o themâu ac astudiaethau achos sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith sicrwydd. Credwn fod gwerth mawr i rannu gwersi i'w dysgu a phrofiadau ac rydym am i wasanaethau gofal iechyd ddefnyddio ein canfyddiadau fel ffordd o ysgogi gwelliant ym maes gofal iechyd, yn unol â'n diben o ['fwyafu iechyd a llesiant pobl'](#).

Mae ein [Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid](#) yn parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr, gan ddarparu gwybodaeth i lywio ein gwaith. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig ac yn eu cynrychioli.

Rydym yn eithriadol o falch o'r grŵp hwn, ac mae ei aelodau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Mae'r grŵp wedi dylanwadu ar y ffordd rydym yn gofyn i gleifion am adborth yn ystod ein gwaith, ac mae wedi ein herio

i feddwl yn fwy beirniadol am y ffordd y mae ein gwaith yn cael ei gynllunio a'i gyflawni, er mwyn i ni allu casglu amrywiaeth mor amrywiol â phosibl o safbwyntiau.

Yn ystod 2023-2024, rydym wedi cyhoeddi 172 o adroddiadau arolygu, y mae rhai ohonynt wedi denu sylw newyddion lleol a chenedlaethol, gynnwys cynnal cyfweiliadau byw/wedi'u recordio ymlaen llaw â'r prif ddarparwyr newyddion. Drwy gomisiynu ymchwil drwy arolygon omnibws cenedlaethol, gwyddom fod ymwybyddiaeth pobl o'n sefydliad yn parhau i gynyddu. Gwyddom fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o AGIC wedi cynyddu 89% ers 2018, o 27% i 51% yn 2023. Gwyddom hefyd fod 34% o'r bobl wedi dweud mai drwy'r teledu neu'r radio y daethant yn ymwybodol o AGIC yn 2023, gyda 14% yn nodi mai ar-lein neu drwy wefannau y daethant yn ymwybodol ohoni, a 21% arall yn nodi eu bod wedi dod yn ymwybodol ohoni ar lafar. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth a gwelededd, gallwn ennyn hyder a bod yn fwy agored, gan roi sicrwydd i'r cyhoedd bod safonau gofal yn cael eu monitro'n effeithiol. Mae hefyd yn cynyddu atebolrwydd, gan annog darparwyr gofal iechyd i gynnal lefelau uchel o ddiogelwch ac ansawdd.





## Cydweithio

Rydym yn rhoi pwys mawr ar gydweithio â sefydliadau eraill. Mae'r wybodaeth a'r arbenigedd ychwanegol y gallwn fanteisio arnynt wrth gydweithio ag eraill yn cynyddu effaith ein gwaith. Mae cydweithio hefyd yn ein helpu i weithio y tu hwnt i'r sector gofal iechyd, gan ystyried gwasanaethau o safbwynt ehangach drwy wrando ar brofiadau'r cyhoedd ohonynt.

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Datganiad o Fwriad Strategol

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gydweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i gyhoeddi [datganiad o fwriad strategol ar y cyd sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant](#). Fel arolygiaethau a rheoleiddwyr annibynnol gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru, ein nod yw cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er mwyn sicrhau llesiant pobl Cymru. Daethom ynghyd i gyfuno ein profiad a'n gwybodaeth, er mwyn llunio strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar y cyd sy'n cefnogi'r ddau sefydliad. Mae'r datganiad o fwriad yn dangos ein hymrwymiad i gyhoeddi strategaeth ar y cyd sy'n cynnig cyfleoedd newydd i helpu i leihau anghydraddoldebau ar draws gwasanaethau.

### Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

Yn ystod 2023-2024, gwnaethom gynnal dwy [Uwchgynhadledd Gofal Iechyd](#) er mwyn hwyluso trafodaeth rhwng cyrff rheoleiddio a gwella allweddol yng Nghymru. Cynhaliwyd yr Uwchgynadleddau, a arweiniwyd gan AGIC, eu cynnal ym mis Mai a mis Tachwedd 2023, ac roeddent yn cynnwys partneriaid o gyrrff arolygu, rheoleiddio, archwilio, sicrwydd a gwella gofal iechyd. Diben yr Uwchgynhadledd yw rhoi fforwm i rannu gwybodaeth am ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan GIG Cymru.

Dyma'r materion allweddol a nodwyd yn ystod uwchgynadleddau 2023-2024:

- **Y gweithlu:** mae prinder staff sylweddol mewn llawer o feysydd, yn enwedig mewn gwasanaethau mamolaeth, sy'n arwain at straen ymysg y gweithlu a materion posibl o ran diogelwch. Mae pryderon hefyd ynglŷn â'r effaith ar wasanaethau gofal sylfaenol, o ganlyniad i broblemau wrth recriwtio a chadw meddygon teulu.
- **Gofal Sylfaenol:** mae cleifion yn wynebu heriau wrth geisio cael apwyntiadau gyda meddyg teulu neu ddeintydd. Mae hyn

yn cynnwys yr anawsterau sylweddol y mae cleifion yn eu hwynebu wrth gysylltu â phractisau meddygon teulu dros y ffôn.

- **Gofal Heb ei Drefnu:** mae pryderon sylweddol ynglŷn ag Adrannau Achosion Brys gorlawn ac amseroedd aros hir, o ganlyniad i bwysau ar y system gyfan. Mae'r materion hyn yn cynnwys cleifion yn mynd i'r Adran Achosion Brys ar ôl methu â chael apwyntiad gyda'u meddyg teulu.
- **Gofal a Gynlluniwyd:** er bod y ffigurau perfformiad wedi gwella rhywfaint ar gyfer gofal a gynlluniwyd, mae llawer o gleifion yn dal i wynebu amseroedd aros hir iawn am apwyntiadau cleifion allanol a thriniaethau canser.
- **Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol:** mae pryderon allweddol yn cynnwys prinder staff a diffyg cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.



- **Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd:** mewn rhai byrddau lleol, roedd pryderon ynglŷn â'r cynnydd mewn cyfraddau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd Heintiau yw'r rhain y mae cleifion yn eu datblygu tra byddant yn cael triniaeth feddygol.
- **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed:** mae pryderon ynglŷn ag amseroedd aros am apwyntiad cyntaf, ac unrhyw driniaeth neu gymorth dilynol i bobl ifanc. Mae heriau hefyd lle mae plant yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.
- **Asesiadau Niwroddatblygiadol:** mae plant a theuluoedd yn aros am gyfnodau hir cyn cael asesiad am gyflyrau fel Awtistiaeth ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywigrwydd (ADHD).



04.


# Adolygiadau



01	02	03	04	05	06	07	08	09
Rhagair	2023-2024 mewn Niferoedd	Ymgysylltu â Chydweithio	<b>Adolygiadau</b>	Gwasanaethau'r GIG	Gofal Iechyd Annibynnol	Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau	Ein Hadnoddau	Cyswllt

## Adolygiadau

Mae pob un o'n hadolygiadau yn ein helpu i werthuso sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu yng Nghymru, ac rydym yn aml yn cydweithio â sefydliadau eraill i gyfuno ein profiad, ein gwybodaeth a'n pwerau rheoleiddio.



### Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion - Taith drwy'r llwybr strôc


Gall llif cleifion aneffeithiol ac aneffeithlon gael effaith sylweddol ar ansawdd a diogelwch gofal cleifion. Parhaodd ein hadolygiad o Lif Cleifion i archwilio hyn yn ystod 2022-2023. Ar adeg pan fo'r GIG yng Nghymru wedi parhau

i wynebu pwysau sylweddol, prinder staff a galw enfawr am welyau, archwiliodd yr adolygiad yr her a wynebwr wrth geisio darparu gofal amserol pan fo cymaint o alw am adnoddau.

Er mwyn asesu effaith yr heriau o ran llif cleifion ar ddiogelwch cleifion sy'n aros i gael eu hasesu a'u trin, gwnaethom ddewis canolbwyntio ein hadolygiad ar y llwybr strôc. Darnau o waith adolygu manwl yw adolygiadau cenedlaethol, sy'n ein galluogi i archwilio gwasanaeth, llwybr gofal, neu adran yn fanwl. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd mis Mawrth 2023, gwnaethom gasglu tystiolaeth am y gofal a'r driniaeth a oedd y cael eu darparu i gleifion ar y llwybr strôc ledled Cymru, drwy gynnal naw ymweliad safle. Yn ystod yr ymweliadau safle, ymgynghorodd ein tîm adolygu â'r byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac asesodd y prosesau a oedd ar waith o'r adeg pan gafodd ambiwlans ei alw i'r adeg pan gyrhaeddodd yr adran achosion brys, i'r adeg pan gafodd y claf ei dderbyn i'r adeg pan gafodd ei ryddhau.

Canfu'r adolygiad alw mawr am welyau cleifion mewnol a chymhlethdodau wrth ryddhau cleifion sy'n feddygol iach o'r ysbyty, a oedd yn golygu bod y system ysbytai aciwt yng Nghymru yn gweithredu dan bwysau eithafol. Gall arosiadau diangen o hir yn yr ysbyty oherwydd oedi cyn rhyddhau cleifion olygu bod cleifion yn wynebu risg o ddal heintiau yn yr ysbyty neu ddirywio wrth aros i gael eu rhyddhau. Mae'r atalfa wrth ryddhau cleifion yn cael effaith ganlyniadol ar adrannau achosion brys, amseroedd ymateb ambiwlansys, gofal cleifion mewnol, derbyniadau a gynlluniwyd a llesiant cyffredinol staff.

[Cyhoeddwyd yr adolygiad llawn ym mis Medi 2023.](#)



## Adolygiad ar y Cyd: Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Mae AGIC ac AGC yn chwarae rôl ar y cyd wrth fonitro'r broses o roi Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar waith, a chyhoeddwyd ein hadroddiad monitro diweddaraf ym mis Chwefror.


Datblygwyd DoLS er mwyn sicrhau bod hawliau dynol pobl yn cael eu hamddiffyn a'u cynnal, a bod y gofal y maent yn ei gael er eu lles pennaf ac yn cael ei ddarparu yn y ffordd leiaf cyfyngol.

Mae'r trefniadau diogelu hyn yn gymwys i bobl dros 18 oed na allant gydsynio i driniaeth neu ofal mewn ysbyty neu gartref gofal. Maent yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer achosion o amddifadu unigolion o'u rhyddid er mwyn atal achosion o dorri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Roedd y prif feysydd i'w gwella a nodwyd yn cynnwys:

- Bu cynnydd o 18% yn nifer y ceisiadau DoLS a aseswyd gan yr awdurdodau lleol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Bu cynnydd o 32% yn nifer y ceisiadau DoLS a aseswyd gan fyrddau iechyd yn 2022-23 o gymharu â'r ffigurau a welwyd yn 2021-22.

- Mae'r oedi hir cyn dyrannu, asesu ac awdurdodi ceisiadau yn parhau i olygu bod llawer o bobl yng Nghymru yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid, heb fod unrhyw amddiffyniad cyfreithiol ar waith nac unrhyw gyfle i herio wrth aros i benderfyniad gael ei wneud.
- Mae llawer o awdurdodiadau brys yn dod i ben cyn y gellir cynnal yr asesiadau DoLS gofynnol. Gallai fod o fudd i rai awdurdodau lleol a byrddau iechyd adolygu eu gweithdrefnau presennol ar gyfer awdurdodiadau brys ar y cyd â'r awdurdodau rheoli.
- Ni all y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddyrannu nifer y ceisiadau a geir am awdurdodiadau pellach. Rhaid i bob corff goruchwyllo sicrhau y caiff hawliau pobl eu hamddiffyn, ac y caiff yr asesiadau ar gyfer pob cais eu cynnal o fewn y nifer o ddiwrnodau a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer DoLS.
- Mae defnydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd o amodau yn amrywio, gyda rhai rhanbarthau yn eu defnyddio'n fwy nag eraill. Dylai cyrff goruchwyllo sicrhau y caiff amodau eu defnyddio lle bo angen a'u bod yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl, gan gynnwys lleihau neu roi'r gorau i'r amddifadu.



## Adolygiad Cyflym ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant

Ym mis Tachwedd 2022, mewn ymateb i nifer o farwolaethau trasig ymhlith plant yng Nghymru a Lloegr, gwnaeth Llywodraeth Cymru gais am adolygiad cyflym amlasiantaethol o benderfyniadau mewn perthynas ag amddiffyn plant. Cyfrannodd AGIC at yr adolygiad hwn, a gynhaliwyd ar y cyd gan AGC ac [Estyn](#).

Diben yr adolygiad oedd penderfynu i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith yng Nghymru yn sicrhau bod enwau plant yn cael eu hychwanegu'n briodol at y gofrestr amddiffyn plant, a'u tynnu oddi arni pan fydd digon o dystiolaeth i ddangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny.

Gwnaethom ymgysylltu â phedwar bwrdd iechyd arall, sef:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Yn dilyn yr adolygiad, gwnaed argymhellion ar draws y partneriaethau amlasiantaethol, ond yn benodol i ddarparwyr gofal iechyd.

Roedd y rhai yn cynnwys y canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â byrddau iechyd i gomisiynu system TG hygyrch ganolog a all gasglu'r holl wybodaeth iechyd yn ymwneud â phlant, gan gynnwys lleoliad unrhyw gofnodion nad ydynt ar gael yn ddigidol.
- Rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol sicrhau bod pob plentyn yn cael asesiad cadarn o'i anghenion iechyd, gan gynnwys ei anghenion iechyd sy'n dod i'r amlwg a'i anghenion iechyd posibl, os oes pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw anghenion iechyd nad ydynt yn cael eu diwallu drwy'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth.
- Mae gan bractisau meddygon teulu wybodaeth allweddol am blant a theuluoedd. Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid iddynt ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer pob cynhadledd amddiffyn plant.

Cyhoeddwyd yr [adroddiad](#) llawn ym mis Medi 2023.

01	02	03	04	05	06	07	08	09
Rhagair	2023-2024 mewn Niferoedd	Ymgysylltu â Chydweithio	<b>Adolygiadau</b>	Gwasanaethau'r GIG	Gofal Iechyd Annibynnol	Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau	Ein Hadnoddau	Cyswllt



## Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)

Ar y cyd ag AGC, [Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi \(HMI-CFRS\)](#) ac Estyn, gwnaethom gynnal arolygiadau ar y cyd o'r ymateb amlasiantaethol i achosion o gam-drin ac esgeuluso plant.

Cynhaliwyd y rhain yn:

- Ionawr 2023: [Cyngor Sir Ddinbych, sydd wedi'i leoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#)
- Mehefin 2023: [Cyngor Sir Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi'i leoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg](#)
- Hydref 2023: [Cyngor Sir Powys, sydd wedi'i leoli ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys](#)
- Ionawr 2024: [Cyngor Caerdydd, sydd wedi'i leoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.](#)

### Canfyddiadau allweddol:


Roedd yn gadarnhaol gweld bod awdurdodau lleol a phartneriaid yn arfer eu swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn ymdrechu i wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant a diogelwch plant y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Yn gyffredinol, roedd systemau a chydberthnasau ar waith i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol os yw plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Fodd bynnag, roedd angen rhoi sylw i rai agweddau ar amddiffyn plant, gan gynnwys:

- Heriau wrth rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau perthnasol
- Anghysondebau o ran ansawdd cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth
- Lefelau staffio ansefydlog, gan gynnwys gorddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth dros dro i gyflawni dyletswyddau statudol
- Anallu i gael mynediad i'r gofrestr amddiffyn plant yn rheolaidd, yn ystod a'r tu allan i oriau swyddfa
- Presenoldeb annigonol mewn cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol i adolygu a dod i gasgliadau effeithiol.

Disgwylir i adroddiad trosolwg o'r themâu sy'n deillio o'n gwaith JICPA hyd yma gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2024.




## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd


Ym mis Tachwedd 2019, gwnaethom gynnal adolygiad ar y cyd ag [Archwilio Cymru](#) o'r trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Tynnodd yr [adroddiad ar y cyd](#) sylw at nifer o wendidau sylfaenol mewn perthynas ag arweinyddiaeth, ffocws strategol, y trefniadau ar gyfer craffu ar ddiogelwch cleifion a risgiau i gleifion, y broses o reoli pryderon a chwynion, a'r diwylliant sefydliadol. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys 14 o argymhellion ar gyfer gwella.

Ym mis Mai 2021, canfu adolygiad dilynol ar y cyd fod y bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r argymhellion a wnaed yn 2019, er gwaethaf heriau pandemig COVID-19. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhagor o waith ym mhob maes, felly parhaodd pob un o'r 14 o argymhellion ar agor.

Canfu ein hail adolygiad dilynol, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2023, fod y bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion. Cyhoeddwyd yr [adroddiad ar y gwaith dilynol hwn ym mis Awst 2023](#). Gwelsom ffocws strategol cryfach ar ansawdd a diogelwch cleifion, ynghyd â rolau a chyfrifoldebau cliriach o gymharu â 2019. Ar sail yr adroddiad, penderfynwyd nad oedd angen cynnal adolygiad manwl arall. Gwnaethom barhau i oruchwyllo camau gweithredu parhaus drwy ein rhaglenni gwaith arferol.








## Adolygiad Lleol o'r Gwasanaeth Fasgwlaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gwnaethom gynnal adolygiad lleol o'r gwasanaethau fasgwlaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nod yr adolygiad oedd ystyried y cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â'r canfyddiadau a'r naw argymhelliad a nodwyd yn yr [adroddiad ar adolygiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Lloegr o gofnodion clinigol](#), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Yn dilyn yr adolygiad hwn, dynododd AGIC y gwasanaeth fasgwlaidd yn [Wasanaeth Sydd Angen ei Wella'n Sylweddol \(SRSI\)](#).



Yn gyffredinol, canfu ein hadolygiad fod y bwrdd iechyd wedi gwneud ymdrechion i roi prosesau a gwelliannau ar waith yn ei wasanaethau fasgwlaidd, gyda'r nod o roi gofal diogel, amserol ac effeithiol i gleifion. Roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn perthynas â phob un o'r naw argymhelliad a wnaed gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon, a dechreuodd y bwrdd iechyd ar waith i fynd i'r afael â'r pum risg frys i ddiogelwch cleifion. Arweiniodd hyn at ddiddymu statws SRSI y gwasanaeth. Nododd ein hadroddiad fod angen gwneud rhagor o waith o hyd i gryfhau rhai agweddau ar y cofnodion clinigol.

Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad [Gwasanaethau Fasgwlaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; adolygiad o gynnydd ym mis Mehefin 2023](#).



## Adolygiad Cymru Gyfan o Benderfyniadau Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR)

Mae penderfyniadau DNACPR yn rhan bwysig o ofal diwedd oes a all sicrhau marwolaeth barchus ac urddasol. Felly, mae'n hollbwysig bod y penderfyniadau hyn yn cael gwneud a'u cyfleu mewn ffordd sensitif ac effeithiol. Yn 2023, gwnaethom ddechrau adolygiad cenedlaethol o'r trefniadau a oedd ar waith ledled Cymru wrth wneud penderfyniadau DNACPR dros oedolion. Gwnaethom ystyried a yw penderfyniadau DNACPR yn adlewyrchu blaenoriaethau'r unigolyn, gan gynnwys ei ddewisiadau, ac a yw penderfyniadau DNACPR yn cael eu cofnodi a'u cyfleu'n glir rhwng timau gofal iechyd, a gyda'r claf a'i anwyliaid.

Canfu'r adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis [Mai 2024](#), fod enghreifftiau o arferion canmoladwy ledled Cymru mewn perthynas â'r broses o wneud penderfyniadau DNACPR. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd nodi cyfleoedd i wella, gan gynnwys yr angen i wella ansawdd y cyfathrebu â chleifion a'u hanwyliaid, a'r angen i dimau gofal iechyd ddogfennu trafodaethau'n glir ar ffurflenni DNACPR.

Gwelsom fod angen cefnogi a grymuso staff i gael sgysiau gonest, ac y dylid annog cleifion a'u teuluoedd i drafod eu dymuniadau ar ddiwedd oes. Rhaid i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau sicrhau bod adnoddau ar gyfer trafodaethau DNACPR yn cael eu rhannu a'u defnyddio. Mae angen rhoi sylw i hyfforddiant ledled Cymru hefyd.

Daethom i'r casgliad bod angen rhoi mwy o sylw i fanylder wrth gwblhau'r ffurflen DNACPR ar gyfer Cymru gyfan, gan sicrhau ei bod yn cael ei chwblhau'n llawn a'i hategu gan gofnodion clir a darllenadwy o benderfyniadau a sgysiau â chleifion a theuluoedd.

Rydym yn gobeithio y bydd ein hadolygiad yn arwain at welliannau yn y maes hwn, yn benodol er mwyn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwneud penderfyniadau clinigol a pharchu dymuniadau cleifion a'u teuluoedd.

Gellir gweld [crynodedb o'n canfyddiadau](#) ar ein gwefan.


01	02	03	04	05	06	07	08	09
Rhagair	2023-2024 mewn Niferoedd	Ymgysylltu â Chydweithio	<b>Adolygiadau</b>	Gwasanaethau'r GIG	Gofal Iechyd Annibynnol	Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau	Ein Hadnoddau	Cyswllt

## Adolygiad ar y Cyd: Sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru?

Dechreuodd yr [adolygiad ar y cyd](#) hwn rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn yn ystod 2023 i ystyried a yw plant a phobl ifanc yn cael cymorth amserol ac effeithiol i ddiwallu eu hanghenion iechyd meddwl. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar blant rhwng 11 a 16 oed mewn addysg orfodol ac yn ystyried y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi eu hanghenion iechyd meddwl mewn gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant, cyn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau CAMHS arbenigol neu eu hasesu ganddynt.

Mae ein gwaith ymchwil a'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi helpu i lywio cwmpas ein gwaith i ateb y cwestiwn canlynol:

*Sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yng Nghymru yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc, pan fyddant yn aros am asesiad, neu'r rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymyriad gan wasanaethau CAMHS arbenigol?*



Cynhaliwyd cam cyntaf yr adolygiad rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024. Bu'r cam hwn yn gymorth i benderfynu ble i graffu ymhellach yn ystod gwaith maes ar y safle yn ardaloedd byrddau iechyd penodol.

Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ddiwedd 2024.



## Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth - Adolygiad dilynol o gynlluniau gwella

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd AGIC yr adroddiad terfynol ar ei Adolygiad [Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth](#). Nododd yr adroddiad 32 o argymhellion i fyrddau iechyd eu hystyried a phump ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i bob bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru ystyried canfyddiadau ein hadolygiad a'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad. Roedd yn ofynnol i bob un ohonynt gyflwyno cynllun gwella i AGIC mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan ein hadolygiad.

Yn ystod 2023-2024, gwnaethom waith dilynol ar y cynnydd a wnaed gan fyrddau iechyd mewn perthynas â'u cynlluniau gwella. Er mwyn gwneud, gwnaethom ystyried y manylion a roddwyd i ni yn ystod ein hadolygiad dilynol cyntaf, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2021, a'r diweddariadau a roddwyd i ni yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023.

Mae AGIC wrthi'n adolygu canfyddiadau'r arolygiadau o wasanaethau mamolaeth a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 a 2023-24 er mwyn nodi themâu allweddol. Caiff y canfyddiadau eu hystyried yng nghyd-destun yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr adolygiad cenedlaethol blaenorol. Bydd AGIC yn defnyddio'r gwaith hwn i lywio unrhyw waith sicrwydd yn y dyfodol a bydd unrhyw ganfyddiadau perthnasol yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r rôl oruchwylio ehangach hon.



05.

# Gwasanaethau'r GIG




## Gwasanaethau'r GIG

### Ein Canfyddiadau

Dangosodd ein gwaith yn y GIG fod y galw am welyau cleifion mewnol a'r angen i gynnal lefelau staffio diogel i reoli'r nifer uchel o gleifion yn dal i fod yn her sylweddol. Mae gwaith sicrwydd mewn ysbytai aciwt wedi dangos y pwysau parhaus mewn ardaloedd derbyn cleifion ac ar wardiau cleifion mewnol. Gwelsom Adrannau Achosion Brys gorlawn ledled Cymru ac amseroedd aros hir am driniaeth, ochr yn ochr ag oedi cyn i gleifion gael eu rhyddhau. Yn gyffredinol, gwelsom fod cleifion yn cael lefel ddiogel o ofal. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gan fyrddau iechyd, roedd yr heriau o ran llif cleifion yn golygu nad oedd rhai cleifion yn cael gofal a thriniaeth amserol a'u bod yn treulio cyfnod hwy na'r disgwyl yn yr Adran Achosion Brys.

Drwy ein gwaith, rydym unwaith eto wedi gweld gweithlu hynod fedrus ac ymrwymedig, sy'n darparu gofal mewn modd urddasol a thosturiol. Roedd y timau yn broffesiynol, yn gydlynol ac yn gefnogol, ac roedd y staff yn gweithio'n galed i roi profiad cadarnhaol i gleifion a lefelau da o ofal, er gwaethaf y pwysau eithriadol.



Unwaith eto, tynnodd ein canfyddiadau sylw at y canlynol, ar lefel genedlaethol:

- Mae galw enfawr am wasanaethau
- Cymysg yw cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol o hyd, ac yn gyffredinol, mae heriau'n bodoli ledled Cymru wrth sicrhau bod y gweithlu wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf
- Mae angen gwella ansawdd y broses o gynllunio trefniadau rhyddhau
- Mae angen parhaus i leihau'r risgiau i ddiogelwch cleifion yn yr amgylchedd clinigol. Er enghraifft, rydym yn parhau i weld achosion lle nad yw meddyginiaethau'n cael eu cadw'n ddiogel, lle nad yw sylweddau niweidiol yn cael eu cadw dan glo, a lle nad yw cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw mor rheolaidd ag sydd ei angen.

### Gofal mewn Argyfwng

Canfu ein gwaith dystiolaeth o bwysau sylweddol yn y system gofal mewn argyfwng. Roedd y pwysau cynyddol yn golygu ein bod wedi parhau i weld Adrannau Achosion Brys gorlawn, oedi cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys, a chleifion yn aros am amser hir cyn cael eu brysennu a'u trin. Rydym yn parhau i weld effaith llif cleifion gwael o ganlyniad i nifer y cleifion sy'n aros i gael eu rhyddhau. Mae hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal a phrofiad cleifion. Mae hyn yn amlygu ei hun ar ffurf ystafelloedd aros gorlawn, sy'n rhoi pwysau ar y staff, gan gynnwys:

- Diffyg preifatrwydd ac urddas i gleifion
- Lefelau isel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- Trefniadau gwael ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Tasgau anghyflawn yn arwain at risg
- Diffyg asesiadau risg, goruchwyliaeth a diogelwch.



Roedd yn gadarnhaol gweld bod ysbytai yn cyflwyno nifer o fentrau newydd i reoli'r cynnydd yn nifer y cleifion sy'n mynd i adrannau achosion brys, gan gynnwys newidiadau amgylcheddol fel creu ardaloedd aros mwy a gwasanaethau eiddilwch a dementia arbenigol.

Mae gofal iechyd meddwl yn parhau i fod yn faes eithriadol o brysur wrth ddarparu gofal mewn argyfwng ym mhob rhan o'r GIG, a nododd pob un o'n harolygiadau o adrannau achosion brys ond un faterion yn ymwneud ag ardaloedd i gleifion â phroblemau iechyd meddwl difrifol. Rydym wedi gweld amseroedd aros hir ac wedi nodi meysydd ychwanegol i'w gwella i leihau'r risg o niwed, fel briwiau pwyso, i gleifion ag anghenion amrywiol.

### Gofal Mamolaeth


Gwelsom fod y staff ar y wardiau mamolaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelodd y tîm arolygu sawl enghraifft o'r staff yn ymddwyn mewn ffordd dosturiol, garedig a chyfeillgar tuag at y cleifion a'u teuluoedd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Tynnodd ein harolygiadau sylw at bwysigrwydd cyfathrebu da, boed hynny ynghylch dewisiadau geni neu feddyginiaethau lleddfu poen. Rydym hefyd wedi gweld gwelliannau mewn systemau i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Drwy ein gwaith arolygu mewn unedau mamolaeth, rydym wedi tynnu sylw at y ffordd y gall staffio ac arweinyddiaeth gadarnhaol wneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd y gofal a ddarperir.

Nododd ein gwaith arolygu a sicrwydd gynnydd yn y ddarpariaeth i fenywod sy'n ceisio noddfa a goroeswyr arferion niweidiol. Er y gellid bob amser gryfhau'r gwaith pwysig hwn, roedd yn gadarnhaol gweld bod mwy o'r staff yn ymwneud â'r broses o gyflwyno a hyrwyddo'r mentrau pwysig hyn i wella canlyniadau i fenywod ag anghenion gwahanol.

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut mae gwasanaeth sy'n wynebu heriau wedi chwilio am ffyrdd gwahanol o weithio i gyflawni canlyniadau i gleifion.





## Astudiaeth Achos o Arfer Da - Ysbyty Mamolaeth Bronglais

Gwnaethom gynnal arolygiad dirybudd o'r Uned Famolaeth yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn Aberystwyth, sy'n cael ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cwblhaodd arolygwyr yr arolygiad dros dri diwrnod dilynol ym mis Awst 2023, gan ganolbwyntio ar ofal cynenedigol, gofal yn ystod y cyfnod esgor a gofal ôl-enedigol.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i famau, pobl a oedd yn rhoi genedigaeth, a'u teuluoedd. Gwelodd yr arolygwyr staff ar bob lefel yn gweithio'n dda fel tîm i roi profiad cadarnhaol wedi'i deilwra at yr unigolyn a oedd yn canolbwyntio ar anghenion y menywod a'r bobl a oedd yn rhoi genedigaeth yn eu gofal.

Roedd yr ymatebion i'n harolwg staff yn gadarnhaol, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn ansawdd y gofal a welsom.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n falch iawn o weithio i'r uned hon. Mae cymaint o ymdeimlad o undod yn ein gweledigaeth a rennir neu o ran darparu gofal gwych i fenywod a'u teuluoedd yn ein cymuned, ac mae pawb yn ymfalchio yn y gwasanaeth rydym yn ei gynnig.”

“Amgylchedd gwaith gwych gyda gwaith tîm a morâl ardderchog.”

“Rydym yn gallu darparu gofal diogel ac wedi'i deilwra at yr unigolyn i'n cleifion, gan roi eu hanghenion nhw yn gyntaf a sicrhau eu bod yn rhan o'u gofal a'r penderfyniadau a wneir. Rydym yn gallu darparu gofal un i un yn rheolaidd, ac am ein bod yn dîm bach, rydym yn aml yn gallu cynnig parhad gofal, sy'n rhywbeth cadarnhaol a chalonogol i'r rhai rydym yn gofalu amdanynt ac i ni fel staff hefyd.”

Nodwyd bod llywodraethu ac arweinyddiaeth yn yr uned yn enghraifft o arfer da, a oedd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar lesiant y staff ac, yn ei dro, ar ansawdd gofal a phrofiad cleifion.

Gwelodd yr arolygwyr y staff yn darparu gofal parchus a charedig i'r menywod a'r bobl a oedd yn rhoi genedigaeth a'u teuluoedd. Pan ofynnwyd i'r menywod a'r bobl a oedd yn rhoi genedigaeth, roeddent yn gadarnhaol am eu gofal, y staff ac amgylchedd yr uned famolaeth. Gwelsom dystiolaeth bod y rhai ag anawsterau cyfathrebu yn cael eu nodi a'u cefnogi i gael gafaél ar wasanaethau drwy'r cynllun pasbort mamolaeth yn effeithiol. Gellir defnyddio'r cynllun ar gyfer pobl niwrowahanol a phobl sydd ag anawsterau dysgu neu unrhyw anawsterau cyfathrebu eraill i gofnodi anghenion cyfathrebu'r rhai sy'n derbyn gofal. Gwelodd yr arolygwyr staff yn siarad Cymraeg a dywedodd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau wrthym fod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gofal.

Roedd y staff hefyd yn cael cylchlythyrau mewnol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau newydd a digwyddiadau, ac ati. Gwelsom hefyd dystiolaeth o amrywiaeth eang o gyfleoedd addysgu a dysgu, gan gynnwys sesiynau cinio a dysgu.

Disgrifiodd y staff ddiwylliant cadarnhaol gydag arweinyddiaeth dda a chefnogol. Roedd strwythur rheoli clir ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd y rheolwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn barod i dderbyn adborth. Roedd tîm sefydlog o staff mamolaeth ynghyd ag ethos tîm cryf ac arweinyddiaeth dosturiol. Nodwyd nad oedd yr uned wedi wynebu'r prinder staff sylweddol sydd wedi'i weld mewn manau eraill yn y DU. Roedd amrywiaeth o fentrau cefnogol ar waith i sicrhau bod mwy o aelodau iau o'r staff yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o'r staff.

Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym y gallent godi pryderon i'r staff mamolaeth a'r meddygon ymgynghorol.



Roedd hyn yn cael ei gyflawni drwy nifer o brosesau diwyllianol a llywodraethu da. Gwelsom ddiwylliant cefnogol mewn perthynas â dysgu o ddigwyddiadau, er enghraifft rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn gyflym, gan gynnwys y rheini lle na fu unrhyw niwed. Y meddygon a'r bydwagedd oedd yn gyfrifol am arwain y broses o ddysgu o ddigwyddiadau a rhannu'r camau nesaf yn eang. Roedd themâu yn cael eu holrhain ac roedd dysgu'n cael ei annog drwy ddiwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym fod diwylliant o 'gwblhau'r dasg' h.y. ymateb yn llawn i bryderon a myfyrio arnynt bob amser.

Roedd enghreifftiau pellach o arfer da yn cynnwys bod yr uned yn rhan o dimau a rhwydweithiau ehangach y bwrdd iechyd, sy'n sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n gweithio yn yr uned famolaeth fach yn cael eu cynnwys yn llawn a'u cefnogi yn y rhwydweithiau mwy.



Drwy ein gwaith sicrwydd ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru, gwnaethom nodi nifer o faterion thematig mynych, gan gynnwys:

### Staffio

Erys adnoddau a staffio yn broblem i wasanaethau'r GIG ledled Cymru. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu bod y staff yn gorweithio ac yn arwain at forâl isel a throsgiant uchel, sydd wedyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y staff sy'n weddill.

Drwy ein gwaith, rydym wedi gweld arferion da mewn rhai lleoliadau mamolaeth lle ceir dulliau mwy darbodus o gynllunio'r gweithlu, gan gynnwys goramcangyfrif absenoldeb oherwydd salwch ac absenoldeb mamolaeth, a chynllunio cylchoedd shifftiau ymlaen llaw at ddibenion gwydnwch.

### Cyfarpar a Rheoli Meddyginiaethau

Yn dilyn gwaith sicrwydd diweddar, rydym wedi nodi nifer o faterion yn ymwneud ag argaeledd cyfarpar a'r broses o reoli meddyginiaethau. Mewn rhai amgylchiadau, bu'n rhaid i ni ofyn i'r lleoliad gymryd camau ar unwaith i leihau'r risgiau i ddiogelwch cleifion.

Un o'r themâu mynych a nodwyd drwy ein gwaith yw argaeledd cyfarpar monitro cleifion a'r gallu i gael gafael arno. Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd nifer sylweddol o'r staff wrthym fod hyn yn broblem lle maent yn gweithio, a'i fod yn achosi oedi a rhwystredigaeth.

Mae rheoli meddyginiaethau yn dal i fod yn broblem gyson hefyd, ac rydym wedi gofyn am sicrwydd ar unwaith o ganlyniad i ddiffyg mesurau i ddiogelu meddyginiaethau, gwirio tymheredd oergelloedd a gwaredu hen feddyginiaethau.

### Yr Amgylchedd Ffisegol

Rydym yn aml yn gweld effaith diffyg buddsoddiad cyfalaf ar safleoedd y GIG, gyda llawer o wasanaethau'n cael eu rhedeg ar hen safleoedd y mae angen eu cynnal a'u cadw, sy'n arwain at broblemau o ran hygyrchedd gwasanaethau a mwy o risg i gleifion, staff ac ymwelwyr.

### Technoleg

Rydym wedi gweld defnydd gwell o dechnegol yn ystod rhai arolygiadau, lle mae rhai lleoliadau yn defnyddio systemau digidol i wirio cyfarpar brys, gan gynnwys monitro cydymffurfiaeth â'r gwiriadau hynny.



Mewn rhai gwasanaethau, roedd cydymffurfiaeth o ran gwirio cyfarpar brys wedi cynyddu i bron 100%. Mae AGIC yn croesawu hyn gan ei bod yn fwy effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar y broses o ddarparu gofal diogel i gleifion.

Yn anffodus, mae diffyg gwiriadau o gyfarpar brys yn dal i fod yn un o ganfyddiadau rheolaidd ein harolygiadau o'r GIG. Fodd bynnag, rydym wedi gweld arferion da lle mae gwasanaethau wedi dangos bod arloesi drwy ddefnyddio technoleg o fudd i'w gweithdrefnau llywodraethu. Er enghraifft, defnyddio gwybodaeth a data digidol byw i olrhain a gwella llif cleifion a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau, a monitro risgiau.

### Adborth gan Staff

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion a gawsom i'n holiaduron staff yn ystod ein harolygiadau o ysbytai'r GIG yn dangos lefelau isel o forâl ymysg y staff. Roedd hyn yn ymwneud yn

benodol â heriau o ran niferoedd staff a galw mawr am wasanaethau. Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd ateb y galw a'u bod am allu darparu gofal gwell. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod hyn yn effeithio ar brofiadau cleifion o staff, a gafodd eu canmol yn aml am eu hymrwymiad i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Profiad Cleifion

Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd gan staff, fel y'u nodwyd uchod, yn gyffredinol, dywedodd cleifion wrthym fod staff yn garedig ac yn dosturiol. Gwnaethant ddweud wrthym fod staff yn gwneud ymdrechion cynyddol i ddiogelu eu hurddas. Fodd bynnag, roedd gennym bryderon ynglŷn â pha mor gynaliadwy oedd hyn o ystyried yr heriau parhaus mewn lleoliadau gofal iechyd mewn perthynas â'r galw cynyddol a phrinder staff.



## Meddygon Teulu

Yn ystod 2023-2024, gwnaethom gynnal 21 o arolygiadau o bractisau meddygon teulu yng Nghymru.

Mae ein dull diwygiedig o ymdrin ag Ymarfer Meddygol Cyffredinol yn ystyried y tirlun gofal sylfaenol ehangach, gan gynnwys atgyfeirio a chyfeirio at wasanaethau eraill.

Gwelsom fod practisau meddygon teulu yn wynebu pwysau sylweddol ers y pandemig a'u bod yn parhau i wynebu galw digynsail. Mae'r pwysau ar wasanaethau meddygon teulu yn parhau i gynyddu o ganlyniad i bractisau'n cau, prinder staff a rhestrau aros hir am driniaeth mewn ysbytai. Defnyddiwyd ein proses sicrwydd ar unwaith, sy'n nodi pryderon neu risgiau sylweddol, ar gyfer 10 o'r arolygiadau hyn.

Roedd materion sicrwydd ar unwaith yn cynnwys:

- Cofnodion diogelu anghyflawn ac arferion gwael o ran mynd ar drywydd pryderon
- Gwiriadau o gyfarpar a chyffuriau brys heb eu cwblhau
- Diffyg gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff, gan gynnwys staff gweinyddol/derbynfa
- Meddyginiaethau heb eu storio'n ddiogel
- Gwiriadau o dymheredd oergelloedd meddyginiaeth heb eu cwblhau

**21**  
o arolygiadau  
o bractisau  
meddygon  
teulu



- Diffyg cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelwch, dadebru cardio-anadlol ac atal a rheoli heintiau
- Cyfarpar yr oedd ei dyddiad defnyddio wedi mynd heibio, gan gynnwys pwythau wedi'u diheintio, menig wedi'u diheintio, pecynnau casglu samplau wrin, pecynnau mân driniaethau llawfeddygol a nodwyddau, yr oedd rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i 2006.

Mae ein harolygon o brofiadau cleifion yn aml dod i'r casgliad bod staff yn trin cleifion ag urddas a pharch, ond dywedodd nifer o gleifion wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiad. Un o'r themâu allweddol a nodwyd drwy'r pryderon a godwyd gyda ni yn ystod 2023-2024 oedd anhawster cael apwyntiadau gyda meddyg teulu. Mae effeithiau oedi cyn cael apwyntiadau ar gleifion yn cwmpasu iechyd corfforol, llesiant emosiynol, a phrofiadau gofal iechyd cyffredinol.

Gall rhai cleifion sy'n teimlo'n rhwystredig oherwydd eu hanallu i gael apwyntiadau amserol droi at wasanaethau brys ar gyfer materion nad ydynt yn achosion brys. Mae hyn yn rhoi pwysau ar Adranau Achosion Brys ac yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth gleifion sydd mewn argyfwng go iawn.

Mae'n hanfodol bod arweinwyr yn y maes hwn yn ystyried y pryderon mynych a fynegir gan gleifion na allant gael gafael ar y gwasanaeth ac ystyried beth arall y gellir ei wneud i leddfu'r pwysau ar wasanaethau meddygon teulu.

Roedd meysydd o arferion da a nodwyd drwy ein rhaglen waith yn cynnwys:

- Canolfannau mwy sy'n darparu gwasanaethau mwy canolog, gan gynnwys ffisiotherapyddion a rhagnodwyr cymdeithasol yn gwella gallu cleifion i gael gafael ar wasanaethau
- Cymdeithion iechyd meddwl arbenigol yn darparu gofal mwy lleol
- Parafeddygon clwstwr yn cynnal ymweliadau â chartrefi i leddfu'r pwysau ar feddygon teulu
- Fferyllwyr ac ymarferwyr llesiant seicolegol clwstwr ar gael i wella canlyniadau i gleifion
- Cynnal hawliau cleifion drwy ddefnyddio enwau a rhagenwau a ffefrir wrth drin cleifion trawsryweddol
- Lefel gyffredinol dda o weithgarwch hybu iechyd, gan gynnwys y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer ieithoedd gwahanol

- Clinigau ychwanegol yn gweithio y tu allan i oriau i roi brechiadau, er mwyn ei gwneud yn haws i gleifion gael eu brechu
- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin yn dda pan fyddant yn gweld clinigydd.

Roedd meysydd cyffredinol i'w gwella a nodwyd ar draws ein harolygiadau yn cynnwys:

- Yr angen i wella preifatrwydd, yn enwedig i gleifion y mae angen iddynt drafod materion a allai fod yn sensitif yn ymwneud â'u hiechyd wrth dderbynfa
- Aseidiadau risg anghyflawn neu wedi dyddio ar gyfer amgylcheddau ffisegol, gan gynnwys risgiau posibl o ran diogelu a pheryglon tân
- Gwiriadau annigonol o gyfarpar brys
- Anghysondebau o ran cymryd camau dilynol ar ôl i blant golli apwyntiadau/clinigau ac atgyfeiriadau diogelu posibl
- Lefelau isel o hyfforddiant gorfodol sylfaenol a chritigol, gan gynnwys hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol.

## Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R)

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R). Bwrriedir i'r rheoliadau ddiogelu pobl rhag peryglon sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd Ïoneiddio.

Yn ystod 2023-2024, cwblhaodd AGIC wyth arolygiad mewn perthynas ag IR(ME)R, gan ystyried y tri math o gysylltiad meddygol. Roedd hyn yn cynnwys pedair adran delweddu diagnostig, yr oedd un ohonynt yn ysbyty annibynnol, tair yn adran meddygaeth niwclear, un yn ddarparwr annibynnol, ac un yn Adran Radiotherapi.

Yn ystod yr arolygiadau hyn, cafodd AGIC gymorth gan aelod o'r Grŵp Cysylltiadau Meddygol, sy'n rhan o Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, fel cynghorydd. Cynhaliwyd pob un o'r arolygiadau ar y safle. Fel rhan o'r broses, gwnaethom ofyn i ddarparwyr gynnal hunanasesiad llawn ac, yn dilyn hynny, gwnaethom gynnal trafodaethau â'r staff am gynnwys yr hunanasesiadau a'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd i'w cefnogi. Yn ystod ein gweithgarwch ar y safle, gwnaethom hefyd edrych ar gofnodion clinigol a chofnodion perthnasol eraill, yn ogystal ag arsylwi ar yr amgylchedd lle roedd gwasanaethau'n cael eu darparu. Gwnaethom hefyd ofyn i gleifion a staff roi adborth drwy arolygon ar-lein.

Roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion yn gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt am eu profiad o fynd i'r adrannau. Yn gyffredinol, rhoddodd cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau. Er bod yr adborth gan staff yn gadarnhaol ar y cyfan, cafwyd rhai ymatebion a sylwadau negyddol gan staff yn ymwneud â diffyg adnoddau.

Ar y cyfan, roedd lefelau cydymffurfiaeth dda â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017 yn y mwyafrif o'r ysbytai. Roedd y cofnodion hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ar IR(ME)R yn dda yn y rhan fwyaf o'r adrannau, yn ogystal â chydymffurfiaeth â'r broses arfarnu flynyddol.

Yn un o'r adrannau, dywedwyd wrthym fod ffurflenni atgyfeirio ar gyfer cysylltiadau a gyflawnwyd yn ystod achosion mewn theatrau llawfeddygol yn cael eu cwblhau gan y radiograffydd yn hytrach na'r atgyfeiriwr. Nid oedd hyn yn gyson â gofynion rôl y deiliad dyletswydd a chyfrifoldeb yr atgyfeiriwr.

Er bod gweithdrefnau'r cyflogwr, sy'n ofynnol o dan IR(ME)R 2017 wedi'u hysgrifennu'n dda ar y cyfan, nodwyd meysydd lle y gellid gwella'r rhain ymhellach.

8

arolygiad  
IR(ME)R



## Iechyd Meddwl

Yn ystod 2023-2024, gwnaethom gynnal 26 o ymweliadau arolygu iechyd meddwl â wardiau cleifion mewnol a dau ymweliad arolygu â gwasanaethau cymunedol. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom gynnal arolygiadau ar y safle o amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd mewn ysbytai annibynnol ac ysbytai'r GIG. Roedd y wardiau a'r gwasanaethau a arolygwyd yn rhoi gofal i amrywiaeth o gleifion, gan gynnwys:

- Oedolion â phroblemau iechyd meddwl
- Pobl hŷn
- Anableddau Dysgu
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

O ran gwasanaethau cymunedol, gwnaethom gynnal un ymweliad safle â thîm iechyd meddwl cymunedol ac un ymweliad â thîm anableddau dysgu cymunedol.

Yn ystod yr ymweliadau, gwnaethom ystyried amrywiaeth o feysydd allweddol o dan dri phennawd penodol, sef ansawdd profiad y claf, darparu gofal diogel ac effeithiol, ac ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

O ran y GIG, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r gwasanaethau gofal iechyd meddwl yn cyrraedd Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023. O ran darparwyr annibynnol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r gwasanaethau hyn yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru 2011 a Chod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru (diwygiwyd 2016). O ran y GIG a darparwyr annibynnol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r gwasanaethau hyn yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Gwnaethom ddefnyddio ein proses sicrwydd ar unwaith/diffyg cydymffurfio ar saith achlysur. Mae hyn yn cynrychioli chwarter ein harolygiadau lle roedd y materion a nodwyd yn ystod arolygiad yn peri'r risg fwyaf uniongyrchol i gleifion.

Un maes cadarnhaol a nodwyd yn ystod y rhan fwyaf o'n harolygiadau oedd ansawdd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Teimlai'r cleifion hefyd

y gallent ymgysylltu â'r staff a rhoi adborth iddynt am y gofal a ddarperid yn yr ysbyty lle roeddent yn aros.

O ran monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gwelsom fod cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol. At hynny, gwelsom fod gwybodaeth am hawliau'r cleifion wedi'i dogfennu'n glir gydag asesiad o ddealltwriaeth y claf perthnasol, yn unol ag adran 132 o'r Ddeddf, a bod systemau da ar waith i gefnogi'r broses o adnewyddu trefniadau cadw yn awtomatig.





01	02	03	04	05	06	07	08	09
Rhagair	2023-2024 mewn Niferoedd	Ymgysylltu â Chydweithio	Adolygiadau	<b>Gwasanaethau'r GIG</b>	Gofal Iechyd Annibynnol	Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau	Ein Hadnoddau	Cyswllt

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o faterion sylweddol yn ymwneud â rhoi'r Ddeddf ar waith, gan gynnwys nad oedd gwrandawiadau Rheolwyr yr Ysbyty yn cael eu cynnal mewn modd amserol, gydag oedi o bum mis mewn un achos. At hynny, roedd ffurflenni absenoldeb Adran 17 wedi'u stampio'n ffurflenni wedi'u canslo yn hytrach nag yn ffurflenni nad oeddent yn ddilys mwyach lle roedd absenoldeb wedi'i gymryd, ac nid oedd asesiadau o alluedd wedi'u cynnal a'u dogfennu cyn rhoi gofal a thriniaeth i'r cleifion.

Yn anffodus, mae'n bosibl y bydd angen i gleifion sy'n wynebu cyfnod aciwt a/neu heriol o'u salwch gael eu cadw ar wahân am gyfnod cyfyngedig o amser. Yn ystod un o'n hymweliadau lle roedd claf yn cael ei gadw ar wahân, gwelsom nad oedd yr ardal a oedd yn cael ei defnyddio i gadw'r claf ar wahân yn cydymffurfio â safonau arferion gorau na pholisi a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar gyfer cadw cleifion ar wahân. Yn benodol, nid oedd cloc yn weladwy ac nid oedd ffordd o reoli'r tymheredd y tu allan i'r ardal. Nid oedd y toiled ar wahân a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y claf wedi cael ei addasu ar gyfer cleifion risg uchel, ac roeddem yn bryderus ynghylch ei allu i dreulio cyfnodau rheolaidd yn yr awyr iach. Yn olaf, nid oedd cynllun gofal ar gyfer cadw claf ar wahân ar waith ar gyfer y claf, a oedd yn mynd yn groes i bolisi'r bwrdd iechyd. At hynny, o ran arsylwi ar gleifion, nid oedd

y lefelau arsylwi wedi'u diweddarau yn y cynlluniau gofal ers y cyfarfod adolygu gofal a thriniaeth diwethaf.

Yn anffodus, dros y blynyddoedd diwethaf, nid ydym wedi gweld fawr ddim gwelliant yn y meysydd canlynol:

**Diogelwch Staff a Chleifion** - ymhlith y materion roedd risgiau clymu lle nad oedd y gwaith i atal pwyntiau clymu a argymhellwyd yn 2020 wedi cael ei gwblhau o hyd; nid oedd clychau galw cleifion yn briodol i'r grŵp cleifion ac nid oeddent yn hawdd cael gafael arnynt; ac nid oedd y staff yn gwisgo larymau personol.

**Heriau o ran y Gweithlu** - problemau o ran recriwtio a chadw staff a hyfforddiant sefydlu annigonol ar gyfer staff asiantaeth.

**Rheoli Meddyginiaethau** - amrywiaeth o faterion yn ymwneud â storio, rhoi ac archwilio meddyginiaethau.

**Hyfforddiant** - diffyg hyfforddiant ar feysydd allweddol yn cynnwys hyfforddiant ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol', y Ddeddf Galluedd Meddyliol, codi a chario a chynnal bywyd sylfaenol.

**Gwybodaeth i Gleifion** - diffyg gwybodaeth i gleifion am bynciau allweddol.

**Dogfennaeth Cynllunio Gofal** - ni chawsom sicrwydd bob amser fod y trefniadau gofal a thriniaeth a oedd ar waith yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

**Asesiadau Risg** - nid oedd y rhain bob amser yn cael eu cwblhau na'u hadolygu mewn modd amserol.

**Amgylchedd Gofal** - diffyg dull strwythuredig o atgyweirio ac adnewyddu wardiau.

**Llywodraethu** - diffyg trefniadau i archwilio a goruchwylio agweddau allweddol ar ansawdd a diogelwch cleifion.

Yn ystod ein harolygiadau, gwelsom staff ymrwymedig a phenderfynol, a oedd yn gweithio'n galed ond yn amlwg dan bwysau oherwydd prinder gwelyau iechyd meddwl.

Roedd oedi cyn cael gwasanaethau iechyd meddwl wedi dod yn rhy gyffredin o lawer ac roedd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff a chleifion.

Mae'r gallu i gael gwasanaethau iechyd meddwl mewn modd amserol yn hanfodol i sicrhau'r llwybr gofal gorau er mwyn i unigolyn gyflawni ei ganlyniad gorau. Heb ofal a thriniaeth amserol, gall claf wynebu argyfwng a risgiau y gellid bod wedi eu hosgoi.

## Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) Cymru

Mae'r gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn yn wasanaeth hybrid. Ar gais ysbyty cyfrifol claf, bydd y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn trefnu i feddyg annibynnol, sef Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, roi ail farn os na fydd claf yn gallu neu'n fodlon cydsynio i'w driniaeth. Mae hyn yn ofyniad statudol a fodlonir gan AGIC ar ran Weinidogion Cymru.

Mae ein methodoleg wedi'i nodi'n fanwl yn ein canllawiau i feddygon a benodwyd i roi ail farn ac mae ar gael i Weinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ein gwefan. Rydym hefyd yn llunio taflen gwybodaeth i gleifion, sydd hefyd ar gael er ein gwefan, er mwyn i bob claf ddeall ei hawliau a rôl y gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn.

Eleni, gwnaethom ddiwygio ein methodoleg er mwyn ymgorffori a manteisio'n llawn ar fuddiannau'r fethodoleg hybrid sydd wedi bod ar waith ers 2021. Un o'r prif newidiadau rydym wedi ei wneud yw ein bod wedi defnyddio dull 'o bell yn gyntaf' ar gyfer achosion Gorchymyn Triniaeth


Gymunedol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, dylid cynnal ymweliadau meddygon a benodwyd i roi ail farn yn bersonol at ddibenion cyfweld â chlaf. Bydd y tîm clinigol dan sylw yn ymgynghori â phob claf cyn i geisiadau gael eu cyflwyno er mwyn cadarnhau ei fod yn fodlon i'w achos Gorchymyn Triniaeth Gymunedol gael ei drin ar sail o bell y gyntaf. Ym mhob achos, mae cleifion yn cadw'r hawl i wneud cais penodol am ymweliad ar y safle gan feddyg a benodwyd i roi ail farn. Mae ein ffurflenni wrthi'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau hyn a byddant yn cael eu cyhoeddi ddiwedd 2024. Rydym hefyd yn diwygio ac yn ailddrafftio ein cyfres o ganllawiau a phhecynnau cymorth ar bob mater yn ymwneud â'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl, gan gynnwys y gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn. Rydym wrthi'n ymgynghori â rhanddeiliaid allanol ar y diwygiadau hyn ac yn bwriadu cyhoeddi ein cyfres o ganllawiau a phhecynnau cymorth diwygiedig ar ein gwefan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Rhaid i'r meddyg a benodwyd i roi ail farn arfer ei farn a'i ddisgresiwn proffesiynol a bydd yn gwneud hynny er mwyn ystyried a all ardystio

yn ddiogel ac yn hyderus o bell, a dylai bob amser gofnodi'r dull o gyfweld â'r claf fel rhan o'i resymau ar ei ffurflenni Tystysgrif Gydsynio.

Mae cyngor llawn ar ein methodoleg ar gael ar ein gwefan ac mae wrthi'n cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau rydym wedi'u gwneud eleni.

### Dadansoddiad o achosion Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn rhwng 01/04/2023 a 31/04/2024:




01	02	03	04	05	06	07	08	09
Rhagair	2023-2024 mewn Niferoedd	Ymgysylltu â Chydweithio	Adolygiadau	<b>Gwasanaethau'r GIG</b>	Gofal Iechyd Annibynnol	Pryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau	Ein Hadnoddau	Cyswllt

## Adolygiad o driniaeth (Adran 61)

Ar ôl i ymarferydd meddygol awdurdodedig (meddyg a benodwyd i roi ail farn) sydd wedi cael ei benodi gan AGIC awdurdodi cynllun triniaeth, rhaid i'r clinigydd sy'n gyfrifol am driniaeth y claf ddarparu adroddiad ar y driniaeth a chyflwr y claf i AGIC. Darperir y ffurflen benodedig i swyddfa Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl ym mhob bwrdd iechyd lleol a lleoliad annibynnol fel y gall y Clinigydd Cyfrifol ei llenwi. Am yr wythfed flwyddyn yn olynol, archwiliodd AGIC y ffurflenni hyn er mwyn sicrhau bod mesurau digonol ar waith i ddiogelu cleifion. Mae Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn arweiniol Cymru yn adolygu'r triniaethau bob mis. Rydym yn categoreiddio ac yn nodi unrhyw faterion o ran cydymffurfiaeth ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi tueddiadau ac anghysondebau o ran gweinyddu Deddf Iechyd Meddwl 1983. Bwriedir i'r broses hon ychwanegu haen ychwanegol o ddiogelwch i'r cleifion hynny sy'n cael eu trin o dan y Ddeddf ac mae'n bodloni'r gofynion a osodir ar AGIC fel y'u hamlinellir yn y Cod Ymarfer (Cymru) a ddiwygiwyd yn 2016.

Erys nifer bach iawn o achosion lle y caiff anghysondebau eu nodi gan yr adolygydd. Mae gwelliannau pellach a nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol blaenorol yn parhau mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Mewn nifer bach o achosion o hyd, rhestrir mwy o feddyginiaeth o dan y disgrifiad o'r driniaeth na'r hyn sydd wedi'i awdurdodi ar y ffurflen CO3<sup>[1]</sup>. Yn yr achosion hyn, mae'r adolygydd yn pwysleisio bod angen i'r lleoliad gyflwyno cais am feddyg a benodwyd i roi ail farn, gan arwain at nifer o geisiadau newydd am ardystiad gan feddyg a benodwyd i roi ail farn.
- Erys mân anghysondebau mewn perthynas â materion cymhleth yn ymwneud â chyfeiriad y claf fel y'i rhestrir ar y ffurflenni CO. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r rhai nad oes ganddynt gartref sefydlog. Mae AGIC wedi llunio canllawiau i Weinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn perthynas â hyn er mwyn lleihau nifer yr achosion hyn.



[1] Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008 yw'r prif reoliadau sy'n ymdrin ag arfer pwerau gorfodol mewn perthynas ag unigolion a allai gael eu cadw mewn ysbyty neu o dan warcheidiaeth, ynghyd â chleifion cymunedol, o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'r Rheoliadau yn pennu'r ffurflenni sydd i'w defnyddio wrth arfer pwerau o dan Ddeddf, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Daeth y Rheoliadau hyn (a'r ffurflenni) i rym ar 3 Tachwedd 2008, ac maent yn cynnwys ffurflenni CO.

06.

# Gofal lechyd Annibynnol



Rôl AGIC yn y sector gofal iechyd yng Nghymru yw cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol. Mae'r sector gofal iechyd annibynnol yn cwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau, o ysbytai aciwt ac ysbytai iechyd meddwl, i glinigau annibynnol a gwasanaethau laser. Mae'r ysbytai iechyd meddwl yn darparu gofal i gleifion ag anghenion cymhleth a ariennir gan y GIG. Gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yw llawer o'r practisau deintyddol yng Nghymru hefyd, sy'n darparu gofal iechyd deintyddol preifat, neu gymysgedd o ddeintyddiaeth breifat a deintyddiaeth y GIG. O ganlyniad, mae'r sector rheoleiddio yn cyfrif am gyfran sylweddol o'n gwaith sicrwydd.

Rhaid i wasanaethau gofal iechyd annibynnol gofrestru ag AGIC, a phan fyddant wedi'u cofrestru'n llwyddiannus, byddant yn destun gwaith rheoleiddio parhaus a gynhelir drwy ein harolygiadau a'n rheoliadau. Diben hyn yw sicrhau bod darparwyr yn bodloni gofynion eu cofrestriad, yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, ac yn darparu gwasanaeth diogel.

### Ein Canfyddiadau:



Yn ystod 2023-2024, cwblhaodd AGIC 266 o ddarnau o waith yn ymwneud â chofrestru darparwyr gofal iechyd annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys cofrestru 101 o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol newydd. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys practisau deintyddol a chlinigau laser newydd.

Pan fydd gwasanaeth wedi'i gofrestru, rhaid iddo wneud cais i amrywio ei gofrestrriad ar gyfer unrhyw newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'w amodau cofrestru. Ni fydd cais i amrywio cofrestrriad yn cael ei gymeradwyo'n awtomatig. Bydd AGIC yn craffu ar bob cais er mwyn penderfynu a yw'r newidiadau arfaethedig yn briodol cofrestrriad eu prosesau a'u cymeradwyo gan AGIC.

Yn ychwanegol at hyn, mae gan bob gwasanaeth gofal iechyd annibynnol reolwr sy'n mynd drwy broses gofrestru i'w alluogi i redeg gwasanaeth.


Yn ystod 2023-2024, cafodd 41 o geisiadau i amrywio.

Yn ystod 2023-2024, cafodd 124 o reolwyr newydd gwasanaethau gofal iechyd annibynnol eu prosesau a'u cymeradwyo gan AGIC.



Er mwyn gwirio pa wasanaethau sy'n parhau i fodloni gofynion eu cofrestriad, ac yn darparu gwasanaeth diogel o ansawdd i gleifion, mae AGIC y cynnal rhaglen o waith arolygu bob blwyddyn.

Yn 2023-2024, gwnaethom gwblhau 32 o ddarnau unigol o waith sicrwydd mewn perthynas â lleoliadau gofal iechyd annibynnol.



Yn ychwanegol at yr uchod, cwblhawyd 13 o arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol a 62 o arolygiadau o bractisau deintyddol. Trafodir y rhain mewn rhannau eraill o'r adroddiad.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Annibynnol

Drwy ein 13 o arolygiadau iechyd meddwl annibynnol, cyhoeddwyd pedwar hysbysiad diffyg cydymffurfio. Gellir gweld canfyddiadau ehangach ein gwaith sicrwydd iechyd meddwl mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, ond rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar feysydd allweddol o ddiffyg cydymffurfio yn yr adran hon.

Nodwyd y meysydd o bryder uniongyrchol canlynol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio:

- Methiant i gofnodi ac ymchwilio'n briodol i dulliau atal, a methiant i ddadansoddi ac ymchwilio'n ddigonol i'r dulliau atal er mwyn deall a ellid bod wedi eu hosgoi a ph'un a chafodd y dull atal ei ddefnyddio'n briodol
- Prinder staff a oedd yn meddu ar gymwysterau addas ac wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys ar ddyletswydd bob amser

- Cofnodion statudol gwael o gydsyniad i awdurdodi triniaeth cleifion, ynghyd â'r math a'r dos anghywir o feddyginiaeth
- Cofnodion anghywir o feddyginiaeth a roddwyd a diffyg archwiliadau i nodi camgymeriadau ac anghysondebau a'u hunioni'n gyflym
- Methiant i gynnal asesiadau o gapasiti cleifion i gydsynio i driniaeth yn unol â'r fframwaith a nodir yn y Ddeddf Galluedd Meddylol a Chod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl Cymru
- Roedd rhannau o rai ysbytai mewn cyflwr gwael iawn ac roedd angen eu glanhau'n drylwyr er mwyn cyrraedd safonau Atal a Rheoli Heintiau arfer gorau; archwiliadau anghywir ac aneffeithiol.

**13**  
o arolygiadau iechyd meddwl annibynnol




## Ysbytai, Clinigau ac Optegwyr Annibynnol

Os byddwn o'r farn, yn dilyn arolygiad, bod darparwr gwasanaeth yn peryglu diogelwch cleifion ac yn methu â chydymffurfio â thelerau ei ofynion rheoliadol a'i gofrestrriad, byddwn yn cymryd camau ar unwaith drwy gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. Drwy ein harolygiadau o ysbytai, clinigau ac optegwyr, cyhoeddwyd pedwar hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Nodwyd y meysydd allweddol canlynol o bryder uniongyrchol:

- Diffyg gwiriadau dyddiol a misol o'r trolïau adfywio brys
- Lefelau gwael o hyfforddiant staff gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu a chymorth cyntaf
- Yn ystod un arolygiad, nid oedd protocolau priodol fel y protocol gwaedlif mawr yn cael eu harddangos yn ddigonol

- Nid oedd cofnodion cleifion bob amser ar gael i'w harolygu
- Nid oedd y Datganiad o Ddiben wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys gwasanaethau ychwanegol a oedd yn cael eu darparu yn y lleoliad ers ei gofrestrriad cychwynnol
- Gwiriadau ac archwiliadau annigonol i sicrhau bod hen feddyginiaeth yn cael ei gwaredu a bod meddyginiaeth newydd yn cael ei harchebu yn ei lle
- Diffyg gwiriadau addasrwydd i weithio, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff
- Diffyg asesiadau risg diogelwch tân, hyfforddiant ar ddiogelwch tân, archwiliadau diogelwch tân ac ymarferion tân.





## Practisau Deintyddol

Yn ystod 2023-2024, gwnaethom gwblhau 62 o ddarnau o waith sicrwydd mewn perthynas â phractisau deintyddol yng Nghymru, gan gynnwys 14 o ymweliadau cyn cofrestru. Cafodd yr arolygiadau hyn eu cynnal ar safle'r practisau, lle treuliodd tîm AGIC yn cynnwys deintydd cymwysedig a oedd yn gweithio fel adolygydd cymheiriaid deintyddol amser yn archwilio'r arferion, y polisiâu a'r gweithdrefnau a oedd yn rheoli'r ffordd roedd y practis yn cael ei redeg.

Mae'r gallu i gael gofal a thriniaeth deintyddol yn parhau i fod yn thema allweddol eleni. Mae ffactorau fel argaeledd darparwyr deintyddol a galw uchel wedi effeithio ar allu cleifion i gael gofal deintyddol amserol.

Dengys ymchwil fod oedi cyn cael apwyntiadau deintyddol yn gallu arwain at broblemau iechyd y geg, h.y. gallai mân bryder ddatblygu'n broblem fwy cymhleth, y mae angen triniaethau mwy mewnwithiol a chostus i'w datrys.

Drwy ein gwaith sicrwydd deintyddol, gwnaethom gyhoeddi hysbysiadau diffyg cydymffurfio brys ar 11 achlysur. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi nodi pryderon a oedd yn peri'r lefel uchaf o risg i ddiogelwch cleifion ac, felly, yr oedd angen cymryd camau i fynd i'r afael â nhw o fewn 48 awr.

Gwnaethom hefyd argymhell nifer sylweddol o welliannau.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys y themâu canlynol:

- Lefelau isel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant staff gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd mewn rhai practisau a oedd yn darparu gwasanaethau'r GIG
- Diffyg gwiriadau cyn cyflogi, fel gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a threfniadau i sicrhau bod staff yn addas i weithio mewn practis
- Aseidiadau risg tân, hyfforddiant diogelwch tân ac ymarferion tân annigonol, a diffyg trefniadau i sicrhau bod cyfarpar yn ymwneud â diogelwch tân yn cael eu cynnal a'u cadw a'u storio'n gywir
- Hen feddyginiaeth mewn blychau cyffuriau brys
- Nid oedd meddyginiaeth, gan gynnwys cyffuriau brys, yn cael eu storio'n ddiogel
- Nid oedd cyfarpar adfywio y mae'n ofynnol iddo fod ar y safle bob amser ar gael ac yn barod i'w ddefnyddio

- Anghysondebau o ran hyfforddiant cymorth cyntaf gorfodol ar gyfer staff, gan gynnwys diffyg personél a oedd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ar y safle bob amser
- Gwelwyd bod y cyfarpar a ddefnyddiwyd i ddiheintio a rhai triniaethau yn annïogel ac nad oedd unrhyw gofnodion o waith cynnal a chadw neu wasanaethu
- Cyfarpar pelydr-X annïogel ac wedi'i ddifrodi, gan gynnwys diffyg tystiolaeth o hyfforddiant staff, gwaith cynnal a chadw neu wasanaethu
- Diffyg archwiliadau fel archwiliadau atal a rheoli heintiau ac archwiliadau clinigol
- Nid oedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.



## Hosbisau Annibynnol

Mae hosbisau yn darparu gofal i oedolion, pobl ifanc a phlant sydd â salwch angheuol neu gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd na ellir ei wella. Yn ystod 2023-2024, gwnaethom gwblhau dau arolygiad ar y safle o hosbisau oedolion yn unig yng Nghymru a ddarperir gan y sector gofal iechyd annibynnol.

Yn gyffredinol, nododd ein gwaith sicrwydd ac arolygu mewn hosbisau yn ystod y flwyddyn ganfyddiadau cadarnhaol, a thystiolaeth bod gwasanaethau'n darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y teuluoedd a'r gofalwyr a roddodd adborth i ni yn gadarnhaol am y gofal a oedd yn cael ei ddarparu, a'r cymorth roddent yn ei gael. Gwelsom y staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol, a dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus. Roedd dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal, ac roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag asesiadau risg a rhai agweddau ar y broses o archwilio gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. Nododd yr arolygwyr nad oedd asesiadau risg, gan gynnwys ar gyfer cwmpadau a briwiau pwyso, yn cael eu cynnal yn effeithiol. Hefyd, ni chawsom sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, gan gynnwys cynnal bywyd sylfaenol.

# 2

**arolygiad  
ar y safle**



## Triniaeth gan ddefnyddio Laser Dosbarth 3B/4 neu Oleuni Pwls Dwys (IPL)

Yn ystod 2023-2024, gwnaethom gynnal 14 o arolygiadau ar y safle o ddarparwyr laser ac IPL cofrestredig yng Nghymru.

Drwy'r arolygiadau hyn, gwnaethom nodi chwe achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau perthnasol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi canfod, yn achos 57% o'r arolygiadau hyn, nad oedd darparwyr laser ac IPL yn bodloni'r holl ofynion i gydymffurfio â'u cofrestriad. Yn sgil y materion a nodwyd, bu'n rhaid i ni gyhoeddi hysbysiadau diffyg cydymffurfio brys er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar unwaith.

Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio peiriannau nad oedd y darparwr wedi'i gofrestru i'w defnyddio, trin cleifion y tu allan i'r ystod oedran roedd y darparwr wedi'i drwyddedu i'w thrin, a gweithredu heb swyddog cymorth cyntaf.

Mae'r rheoliadau y mae'n rhaid i ddarparwyr laser ac IPL weithredu oddi tanynt yn benodol ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â nifer o feysydd er mwyn dangos eu bod yn addas i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Drwy'r arolygiadau hyn, gwnaethom argymhell gwelliannau dro ar ôl tro mewn nifer o feysydd. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r gwasanaethau hyn.

Mae llywodraethu da yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel i'r cyhoedd eu defnyddio. Felly, dylai darparwyr laser ac IPL sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau o dan y rheoliadau hyn. Mae'r themâu a ddaeth i'r amlwg drwy ein gwaith yn ystod y cyfnod hwn wedi'u nodi isod, a dylai darparwyr ddefnyddio'r rhain fel pwyntiau dysgu, gan ystyried a allant wneud unrhyw welliannau yn seiliedig ar ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Mewn nifer o achosion, gwelsom nad oedd y ddogfennaeth gywir, fel polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael neu'n gyfredol. Roedd angen gwella cofnodion hyfforddiant staff a chofnodion recriwtio mewn rhai achosion hefyd. Roedd darparu swyddogion cymorth cyntaf wedi'u hyfforddi'n briodol a phhecyn cymorth cyntaf cyfredol hefyd yn argymhellion a wnaed yn ystod nifer o'r arolygiadau hyn.

Nodwyd y meysydd eraill canlynol o ddiffyg cydymffurfio:

- Protocolau meddygol a thriniaeth anghyflawn neu heb eu dilyn
- Diffyg asesiadau risg diogelwch tân, hyfforddiant ar ddiogelwch tân, archwiliadau diogelwch tân ac ymarferion tân

- Lleoliadau yn darparu triniaeth â pheiriant laser nad oedd wedi'i gynnwys yn y cofrestriad gwreiddiol
- Nodiadau cleifion anghyflawn neu anghywir a nodiadau'n cael eu storio'n annioegel
- Profion PAT heb eu cynnal ar ddyfeisiau trydanol
- Staff nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf, nac wedi cwblhau neu ddiweddarau hyfforddiant craidd gwybodaeth
- Polisïau a gweithdrefnau annigonol nad oeddent yn bodloni gofynion y rheoliadau
- Diffyg contract Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, neu ddiffyg adolygiad blynyddol gyda'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a diffyg rheolau lleol ar gyfer y dyfeisiau a oedd yn cael eu defnyddio yn y lleoliad.



## Uwchgyfeirio a Gorfodi

Mae'r Tîm Uwchgyfeirio a Gorfodi yn rheoli ac yn arwain pob gweithgarwch uwchgyfeirio a gorfodi mewn perthynas â'r GIG, gofal iechyd annibynnol, a deintyddiaeth breifat yng Nghymru. Mae'r tîm yn ymchwilio ac yn cychwyn achosion troseddol gan ddefnyddio'r pwerau sifil a roddwyd i AGIC i reoleiddio darparwyr cofrestredig.

Yn 2023-2024, cynhaliodd y tîm Uwchgyfeirio a Gorfodi 85 o gyfarfodydd [Gwasanaeth sy'n Peri Pryder](#) mewn perthynas â gofal iechyd preifat a deintyddiaeth breifat yn unol â'n gweithdrefn uwchgyfeirio. Defnyddir proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder AGIC pan fydd methiannau sylweddol mewn gwasanaeth, neu pan fydd pryderon yn cronni am wasanaeth neu leoliad.

Rydym yn annog pobl i roi gwybod am ddarparwyr anghofrestredig. Eleni, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y darparwyr estheteg anghofrestredig y rhoddir gwybod amdanynt, ac mae hyn wedi llywio ein gwaith gorfodi. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i gofrestru drwy ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu rhagweithiol.

O ran gwasanaethau'r GIG, gwnaethom gynnal 13 o gyfarfodydd Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn ystod 2023-2024 o ganlyniad i bryderon a nodwyd drwy ein gwaith sicrwydd. Gall y trafodaethau hyn arwain at ddynodi gwasanaeth yn [Wasanaeth Sydd Angen ei Wella'n Sylweddol \(SRSI\)](#), proses y gwnaethom ei chyflwyno ym mis Tachwedd 2021 er mwyn ysgogi byrddau iechyd ac ymddiriedolaeth i gymryd camau gweithredu penodol a chyflwm i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Yn ystod 2023-2024, ni chafodd yr un gwasanaeth ei ddynodi'n SRSI, ond gwnaethom [ddiddymu statws SRSI un gwasanaeth](#). Cyfeirir at hyn yn yr adran ar adolygiadau o'r adroddiad hwn.



Cafodd 12 o leoliadau cofrestredig eu dynodi'n Wasanaeth sy'n peri Pryder yn ystod y cyfnod hwnnw. Cychwynnodd y tîm dri achos troseddol yn ystod 2023-2024 hefyd.





## Ysbyty Hillview


Roedd Ysbyty Hillview yng Nglynebwy yn darparu cymorth iechyd meddwl arbenigol i bobl ifanc. Oherwydd difrifoldeb a nifer y materion a nodwyd yn dilyn cyfres o arolygiadau, dynodwyd y gwasanaeth yn 'Wasanaeth sy'n Peri Pryder' yn unol â phroses [Uwchgyfeirio a Gorfodi](#) AGIC. O ganlyniad, cafodd [cofrestrriad](#) y gwasanaeth ei atal ac nid yw'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl i'r glasoed mwyach.

Cynhaliwyd yr arolygiad diweddaraf ar ddau ddiwrnod dilynol ym mis Mai 2023, gan ganolbwyntio ar y meysydd yn yr ysbyty a oedd yn effeithio ar ei allu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ac ar y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu. Oherwydd difrifoldeb y materion a nodwyd, cyhoeddwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio ar gyfer y lleoliad o ganlyniad i faterion a nodwyd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys diffyg cofnodion manwl mewn perthynas â nifer yr achosion o atal cleifion yn gorfforol a hyd y digwyddiadau hynny. Roeddem yn pryderu nad oedd y gwasanaeth yn diwallu anghenion gofal yn unol â gofynion ei gofrestrriad, ac roedd hyn yn cael effaith andwyol ar lesiant y cleifion. Felly, penderfynodd AGIC gyhoeddi 'Hysbysiad o Benderfyniad Brys' i atal cofrestrriad Ysbyty Hillview a chafodd pob claf ei symud yn llwyddiannus erbyn dechrau mis Mehefin 2023.

# Canfyddiadau o Bryderon, Ymchwiliadau a Hysbysiadau



## Themâu allweddol y pryderon a godwyd






## Cyfanswm y pryderon a dderbyniwyd gan AGIC

Fel sefydliad, rydym yn ymrwymedig i reoli pryderon yn deg, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae pryderon yn chwarae rôl hanfodol wrth nodi problemau ac ysgogi gwelliannau yn y sector gofal iechyd. Mae adborth, sy'n aml yn cael ei gyfleu drwy bryderon, yn rhoi gwybodaeth werthfawr am feysydd risg, aneffeithlonrwydd, a methiannau o ran ansawdd. Mae'r wybodaeth hon yn taflu goleuni ar broblemau systemig ac unigol, yn amrywio o brosesau gweinyddol i safonau gofal clinigol. Drwy ddadansoddi'r cwynion hyn a mynd i'r afael â nhw, gall sefydliadau gofal iechyd nodi patrymau mynych, achosion sylfaenol, a risgiau posibl.

Er nad corff cwynion yw AGIC, mae'r pryderon a godir gyda ni yn rhoi cyfle pwysig i nodi problemau mewn gwasanaeth gofal iechyd. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein hasesiadau o wasanaethau a llywio penderfyniadau ynglŷn â'r gweithgareddau sicrwydd rydym yn eu cynnal.


Codwyd 614 o bryderon yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli gostyngiad bach o 45 o bryderon o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



Mae AGIC yn ymateb ar unwaith i bryderon risg uchel. Gall hyn fod drwy eu huwchgyfeirio ar unwaith i'r sefydliad gofal iechyd am sicrwydd, a/neu ymyrryd ar unwaith drwy strwythurau ddiogelu neu'r heddlu. Yn ystod 2023-2024, gwnaethom gais am sicrwydd pellach gan y sefydliad gofal iechyd perthnasol ar gyfer chwarter y pryderon a godwyd.

Codwyd llai o bryderon risg uchel eleni, gyda gostyngiad o 87% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn deillio'n bennaf o newidiadau i'r ffordd rydym yn brysbennu pryderon yn seiliedig ar lefel yr ymateb sydd ei angen.


- Mae pryderon risg uchel yn gofyn am weithredu ar unwaith ac ymateb o fewn dau ddiwrnod gwaith, naill ai gan AGIC neu asiantaeth arall.
- Gall fod angen mewnbwn mwy uniongyrchol gan AGIC ar gyfer pryderon risg ganolog, a dylid ymateb o fewn pum diwrnod gwaith.
- Pryderon risg isel yw'r pryderon hynny yr ymdrinnir â nhw fel arfer drwy gyfeirio at brosesau Gweithio i Wella y GIG neu'r broses gwyno leol briodol ar gyfer darparwyr iechyd annibynnol, gydag AGIC yn ymateb o fewn 7 diwrnod gwaith.



## Lleoliad pryderon

### Talfyriadau

<b>BIPAB</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
<b>BIPBC</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
<b>BIPCF</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
<b>BIPCTM</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
<b>BIPHD</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
<b>BIAP</b>	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
<b>BIPBA</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
<b>Felindre</b>	Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
<b>WAST</b>	Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru



## Pryderon Chwythu'r Chwiban

Chwythu'r chwiban yw'r term a ddefnyddir pan fydd rhywun yn gweithio mewn sefydliad, neu ar ei ran, sy'n dymuno codi pryderon am gamymarfer, gweithredu'n anghywir, anghyfreithlondeb, neu risg yn y sefydliad. Gall y pryderon hyn effeithio ar gleifion, y cyhoedd, staff eraill, neu'r sefydliad ei hun.


Mae chwythu'r chwiban yn berthnasol i fynegi pryder o fewn y sefydliad, ac yn allanol, er enghraifft i reoleiddiwr fel AGIC. Mae AGIC yn chwarae rôl arbennig i bobl sy'n ystyried "chwythu'r chwiban" am bryderon sydd ganddynt am weithredu'n anghywir ym maes gofal iechyd yng Nghymru. Mae HIW yn "gorff rhagnodedig" o dan y ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban, felly gellir rhoi rhywfaint o ddiogelwch i gyflogeion, cyn-gyflogeion, staff asiantaeth dros dro neu gontractwyr o ran eu hawliau cyflogaeth os byddant yn codi pryderon gyda ni am weithgareddau eu cyflogwr.

Rhaid i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddilyn ei god ymddygiad proffesiynol a byddem bob amser yn argymhell eu bod yn codi eu pryderon gyda'u sefydliad eu hunain gyntaf. Fodd bynnag, os byddant yn teimlo na allant

wneud hyn, neu os byddant eisoes wedi dilyn y llwybr hwn, byddwn yn gwrandao ar eu pryder ac yn esbonio sut y gallwn helpu.

Efallai y bydd angen i ni drosglwyddo'r wybodaeth y byddant yn eu rhoi i ni i sefydliad neu gorff rheoleiddio arall os bydd yn fwy priodol iddynt ymchwilio i'r pryder.

Mae'r themâu allweddol o ran y pryderon chwythu'r chwiban a godwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi cynnwys materion yn ymwneud â diwylliant a rheolaeth gwasanaeth, proses llywodraethu fewnol annigonol, lefelau isel o adnoddau, a phryderon am safon y gofal a'r driniaeth a roddwyd i gleifion.



**22%**  
gostyngiad  
ers y llynedd

## Marwolaeth yn y Ddalfa

Mae pob marwolaeth sy'n digwydd yn y carchar neu mewn lleoliad awdurdodedig arall yng Nghymru yn destun ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth. Mae AGIC yn cyfrannu at ymchwiliad yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth drwy gynnal adolygiad clinigol o bob marwolaeth sy'n digwydd mewn carchar neu leoliad awdurdodedig arall yng Nghymru.

Nod ein hadolygiadau clinigol yw asesu a gwerthuso lefel y gofal a'r driniaeth feddygol a roddir i garcharorion tra byddant mewn carchar neu leoliad awdurdodedig arall. Ein nod yw gwerthuso a oedd y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn gyfystyr â'r hyn y gallai unigolyn yn y gymuned ddisgwyl ei gael.


Mae'r adolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi tueddiadau a themâu mynych yn ymwneud â thriniaeth a gofal unigolion yn y ddalfa.

Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Yr angen i staff flaenoriaethau dogfennaeth gynhwysfawr ac amserol
- Yr angen i staff ymgyfarwyddo â gweithdrefnau uwchgyfeirio priodol, er mwyn sicrhau y caiff pryderon eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw'n brydlon
- Yr angen am geisiadau amserol am ofal iechyd, gan gynnwys profion gwaed, a chamau dilynol yn dilyn unrhyw ganlyniadau annormal
- Rhaid i wasanaethau gofal iechyd carchardai sicrhau bod cyfarpar meddygol hanfodol ar gael mewn modd amser er mwyn osgoi cyfaddawdu gofal cleifion.




## Nifer y Marwolaethau a nodwyd mewn Adolygiadau Clinigol Dalfeydd




## Hysbysiadau

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol roi gwybod i ni am ddigwyddiadau a datblygiadau o bwys yn eu gwasanaeth, drwy gyflwyno hysbysiadau o dan Reoliad 30/31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafwyd **1,811** o hysbysiadau rheoleiddio. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys hysbysiadau a gyflwynwyd o dan y gyfres ganlynol o reoliadau:




## Hysbysiadau rheoleiddio gofal iechyd annibynnol yn ôl is-deip






## Hysbysiadau rheoleiddio deintyddol yn ôl is-deip




## Hysbysiadau IRMER a gafwyd

Mae'r graff yn dangos nifer yr hysbysiadau a gafwyd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IRMER) ar gyfer y cyfnod adrodd hwn.



## Diogelu



08.

# Ein Hadnoddau



## Ein Hadnoddau

Ein pobl yw ein hadnodd pwysicaf o hyd. Unwaith eto, mae rhaglen o gyfleoedd dysgu a datblygu wedi cael ei dylunio a'i darparu yn unol ag adborth gan staff. Mae ein Fforwm Pobl mewnol yn parhau i fod yn ffynhonnell werthfawr o adborth i uwch-reolwyr AGIC am faterion staff a datblygiad sefydliadol.

Rydym yn dibynnu ar arbenigedd clinigol ein Hadolygwyr Cymheiriaid arbenigol, ac ar hyn o bryd mae gennym banel o fwy na 200 ohonynt yn cynnwys nyrsys arbenigol a chyffredinol, meddygon teulu, deintyddion, anesthetyddion, a rheolwyr practisau meddygon teulu. Mae gennym hefyd arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o Seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD).

Mae gennym 44 o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad sy'n chwarae rôl hanfodol wrth asesu profiad cleifion drwy siarad â nhw. Mae ein system Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid (CRM) electronig bellach wedi'i sefydlu'n dda ac yn darparu data gwerthfawr sy'n cefnogi gwaith pob un o dimau AGIC.

Tîm	Swyddi
Uwch-swyddog Gweithredol	3
Arolygu, Adolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio	39
Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg	14
Strategaeth, Polisi ac Ymgysylltu	7
Cyngor Clinigol (gan gynnwys y gwasanaeth meddygon a benodwyd i roi ail farn)	6
Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys cymorth busnes)	18
<b>Cyfanswm</b>	<b>87</b>

## Cyllid

Roedd gennym gyllideb o tua £5m ar gyfer 2023-2024.

Roedd gennym weithlu cyfwerth ag 87 o aelodau o staff llawn amser yn ogystal â phanel o fwy na 200 o adolygwyr arbenigol.

Yn unol â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, rydym yn parhau i wynebu pwysau cyllidebol parhaus ac yn disgwyl hynny. Er mwyn ymateb i sefyllfa gyllidebol heriol iawn, gwnaethom dreulio rhan o 2023-2024 yn gweithio gyda'n gilydd fel sefydliad i flaenoriaethu'r ffordd rydym yn gweithio, a lle y bo'n bosibl, gwneud arbedion effeithiolrwydd.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwnaethom ddefnyddio'r adnoddau ariannol a oedd ar gael i ni yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i gyflawni ein gwaith yn ystod 2023-2024.



Cyllideb AGIC	£4,970,000
<b>Gwariant</b>	
Costau staff	£4,819,171
Teithio a Chynhaliaeth	£33,178
Dysgu a Datblygu	£30,768
Costau neb fod yn gostau staff	£72,421
Cyfieithu	£125,220
Costau adolygwyr	£615,419
Costau TGCh heb fod yn gostau CRM	£95,391
CRM	£51,424
Cyfanswm y gwariant (a)	£5,842,992
<b>Incwm</b>	
Cyfanswm yr incwm o Ofal Iechyd Annibynnol (b)	£524,262
Cyfanswm y Gwariant Net (a-b)	£5,318,730

09.

# Cyswllt



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais.

Bydd oedi byr fel ieithoedd eraill a fformatau yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir iddynt gwrdd ag unigolyn anghenion. Cysylltwch â ni am help.

Mae copïau o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

✎ Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

☎ 0300 062 8163

✉ [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)



[www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)